# Strategaeth Adfywio Aberystwyth



Rural Office

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Mae trefi'n chwarae rhan bwysig o ran bod yn lleoedd i bobl fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw. Maent yn asedau ynddynt eu hunain ac yn hybiau i fusnesau annibynnol a mentrau, elfennau sy'n cefnogi'r economïau cylchol a sylfaen.

Mae datblygiad trefi yn flaenoriaeth strategol allweddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Roedd y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaethpwyd wrth ddatblygu Strategaeth Economaidd Ceredigion, sef 'Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35', wedi nodi bod 'lleoedd' yn un o'r pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer cefnogi economi Ceredigion, lle byddai yna gyfle i ddatblygu trefi ffyniannus, byw, gweithgar a chymdeithasol.

Er mwyn deall datblygiad trefi ar draws y rhanbarth yn y dyfodol, penododd Cyngor Sir Ceredigion Rural Office i helpu i ddatblygu fframwaith a sylfaen gadarn ar gyfer cynorthwyo cymunedau a rhanddeiliaid eraill i flaenoriaethu eu hanghenion, pennu rhestr o ymyraethau, a nodi'r modd i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Mae'r strategaeth adfywio hon yn nodi cyfres o brosiectau allweddol ac ymyraethau targededig sy'n benodol i Aberystwyth ac sy'n croesgyfeirio at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n cynrychioli gweledigaeth hirdymor sy'n gyfanswm o rannau cynyddrannol, a'r rheiny'n ymgorffori gwybodaeth leol ac yn ymateb i anghenion cyfnewidiol preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr â'r dref.

Mae'r weledigaeth ar gyfer Aberystwyth â'i sylfaen ar ddull seiliedig ar asedau, dull sy'n adeiladu ar y llwyddiannau ac yn cael ei lywio gan waith dadansoddi, ymchwil ac ymgynghori gofalus. Mae canol y dref wrth graidd bywyd y gymuned, ac mae'r strategaeth hon yn nodi cyfleoedd ar gyfer proses adfywio fywiog a chynaliadwy.

## 2035 Aberystwyth

## Mae'n brifddinas ddiwylliannol a chyrchfan Gymreig sy'n cefnogi amrywiaeth o fusnesau, mentrau a chyfleoedd addysgiadol.



Map lleoliadau

Aberystwyth, yng nghyd-destun Cymru, wedi'i hamlygu ymhlith trefi strategol Ceredigion.

© Rural Office 2023

# Strategaeth Adfywio
# ii. Cynnwys


i. Crynodeb Gweithredol

ii. Cynnwys

1. Trosolwg 01
   - 1.1 Dull
   - 1.2 Crynodeb
   - 1.3 Methodoleg
   - 1.4 Ymgysylltu
   - 1.5 Proses

2. Y Cyd-destun Rhanbarthol 03
   - 2.1 Ceredigion
   - 2.2 Trefi gwledig
   - 2.3 Amcanion adfywio

3. Y Cefndir 07
   - 3.1 Y cyd-destun lleol
   - 3.2 Treftadaeth
   - 3.3 Demograffeg
   - 3.4 Blaenoriaethau cenedlaethol
   - 3.5 Trosolwg cyllid
   - 3.6 Themâu craidd

4. Adfywio Trefi 13
   - 4.1 Gweledigaeth
   - 4.2 Adborth rhanddeiliaid
   - 4.3 Dadansoddi
   - 4.4 Effaith economaidd a gwerth cymdeithasol
   - 4.5 Cynllun adfywio
   - 4.6 Ymyraethau targededig

5. Prosiectau Allweddol 31
   - 5.1 Cynllun adfywio allweddol
   - 5.2 Pyrth a mynedfeydd
   - 5.3 Llwybrau canol y dref
   - 5.4 Yr hen Swyddfa'r Post

6. Canlyniadau 45
   - 6.1 Llinell amser
   - 6.2 Argymhellion
   - 6.3 Fframwaith ymgysylltu



© Rural Office 2023

# Strategaeth Adfywio
# 1. Trosolwg

## 1.1 Dull

Mae'r strategaeth adfywio hon yn defnyddio dull seiliedig ar asedau sy'n adeiladu ar lwyddiannau, priodoleddau a gwerthoedd sy'n benodol i Aberystwyth a'r gymuned leol. Mae'n canolbwyntio ar wella'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ac yn amlygu'r potensial ar gyfer gwella.

Mae'r strategaeth yn cynrychioli gweledigaeth hirdymor ar gyfer creu lleoedd sy'n swm ei rhannau cynyddrannol. Cyflwynir ymyraethau targededig a phrosiectau awgrymedig, ynghyd ag amserlenni amrywiol, ac maent yn darparu opsiynau ar gyfer datblygiad cynyddrannol neu benagored, a hynny naill ai dan arweiniad y cyngor neu arweiniad y gymuned, yn unol â'r blaenoriaethau. Mae'r atebion yn dibynnu ar wybodaeth leol, ymgysylltu parhaus â'r gymuned, ac ymrwymiad hirdymor i fynd i'r afael â materion penodol trwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

## 1.2 Crynodeb

Diffinnir adfywio fel a ganlyn: "set integredig o weithgareddau sy'n ceisio gwrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol a sicrhau gwelliannau parhaol mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain heb ryw gymaint o gymorth gan y llywodraeth" (Fframwaith Adfywio Newydd, 2013). Mae'r strategaeth a'r adroddiad adfywio hyn wedi'u paratoi ar ffurf dogfen weledigaeth, sy'n darparu rhestr o ymyraethau targededig a fapiwyd yn ôl yr effaith economaidd bosibl a gwerth cymdeithasol pob prosiect.

Mae adfywio yn golygu nodi a mynd i'r afael â heriau sy'n benodol i gymunedau lleol. Yn ei chraidd, mae'r strategaeth hon wedi cael ei llunio ar y cyd â chynrychiolwyr a rhanddeiliaid o'r gymuned sydd wedi nodi cyfleoedd i wella asedau cyfredol ac i greu tref fywiog a llewyrchus i bobl fyw a gweithio ynddi.

Mae Ceredigion yn sir sy'n meddu ar drefi rhyngddibynnol ac aneddiadau bach ac iddynt amrywiaeth o broblemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Er bod yna amrywiaeth o themâu cyffredin yn bodoli, mae ar bob cymuned leol angen pecyn cymorth, neu strategaeth, sy'n nodi ac yn cysylltu'r heriau hyn, gan alluogi ymateb beirniadol a gweledigaethol.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio adfer ac annog twf yn yr economi leol, a chryfhau bywiogrwydd Aberystwyth a'r cymunedau lleol. Nod polisi'r llywodraeth yw annog twf sy'n cael ei lywio'n lleol sy'n gynaliadwy ac yn deg, gan hybu datblygiad economaidd. Yn yr un modd, mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bobl – gan annog a galluogi cynghorau tref, preswylwyr, ac entrepreneuriaid lleol i ddatblygu set o brosiectau adfywio a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

## 1.3 Methodoleg

I lywio set ddynamig o arfarniadau yn rhan o'r cynllun adfywio, mae ein methodoleg wedi bod yn gynhwysol, gan geisio arweiniad a mewnbwn trwy gydweithredu ag eraill. Trwy gydweithio â thîm prosiect mewnol Cyngor Sir Ceredigion, mae pob elfen ar yr astudiaeth wedi cynnwys prosesau dadansoddi ac ymchwilio gofalus; adolygiad o'r ddogfennaeth, mynd ati i gasglu gwybodaeth leol gyfredol, a gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddeall heriau a chyfleoedd.

## 1.4 Ymgysylltu

Trwy gydol ymarfer y cynllun adfywio, rydym wedi gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion, ymgynghorwyr, rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r gymuned leol. Nod y strategaeth adfywio, a'i hargymhellion, yw grymuso cynrychiolwyr trefi i symud ymlaen â datblygiadau yn y dyfodol. Bydd angen ystyried y dull hwn sy'n canolbwyntio ar bobl fel fframwaith ymgysylltu tymor hwy y gellir parhau i'w roi ar waith y tu hwnt i'r comisiwn hwn. Rydym wedi gweithio gyda datblygwr cymunedol arbenigol a strategydd ymgysylltu i fapio hyn ochr yn ochr â'r strategaeth a'r prosiectau allweddol a amlinellwyd.

## 1.5 Proses

Gan adeiladu ar y gwaith ymgysylltu ac allgymorth sy'n bodoli a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion, a llwyddiant fforymau a llwyfannau lleol a sefydlwyd yn ddiweddar, rydym wedi ystyried y modd y mae'r broses o ddatblygu'r strategaeth adfywio hon yn galluogi grwpiau cymunedol a phreswylwyr i:

- Ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n siapio dyfodol eu tref;
- Cynnig lle y gallai prosiectau newydd gael eu lleoli, a beth a allai'r rhain fod;
- Ymgysylltu â'r rhwydwaith cymunedol ehangach ac annog camau gweithredu;
- Cael gafael ar adnoddau ar gyfer prosiectau cymunedol;
- Creu cyfleoedd ar gyfer deialog â Chyngor Sir Ceredigion a thîm y prosiect.

Mae ymyraethau targededig a phrosiectau ategol allweddol a nodir yn y strategaeth adfywio hon yn cael eu hystyried mewn perthynas â pholisi rhanbarthol a chenedlaethol. Mae ymgysylltu wedi cynnig y cyfle i wirio syniadau o ran eu ffeithiau ar y cyd â phreswylwyr a rhanddeiliaid lleol. Mae hyn wedi helpu i nodi prosiectau y gellir eu rhoi ar waith yn ddiymdroi, cynlluniau peilot tymor canolig i brofi syniadau, ac ymrwymiadau strategol tymor hwy. I symud y strategaeth yn ei blaen a chreu momentwm, bydd angen i ddatblygiad yr ymgynghoriad hwn a'r ymgysylltiad cymunedol ddod yn gylch gorchwyl i'r awdurdod lleol neu'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr lleol. Mae'n bwysig bod pob cynnig hirdymor yn:

- Seiliedig ar dystiolaeth sy'n defnyddio'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu;
- Cyfleu'r hyn y mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud mewn ymgyngoriadau;
- Dathlu asedau a chyfleoedd ffisegol a chymdeithasol cyfredol;
- Nodi blaenoriaethau ar gyfer y camau nesaf;
- Nodi themâu a diddordebau cyffredin i helpu i;
- Ymgorffori egwyddorion creu lleoedd i greu datblygiad o safon uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant.


1


2

Lluniau o waith ymgysylltu a'r safle

1. Nodi ymyraethau adfywiol allweddol posibl yn ystod gweithdy i randdeiliaid.
2. Harbwr Aberystwyth


© Rural Office 2023


Gwesty'r Castell
Gwesty'r Castell
BYRNE

## 2.1 Ceredigion

At ei gilydd, sir wledig yw Ceredigion, sef yr hen Sir Aberteifi yng Ngorllewin Cymru. A hithau wedi'i lleoli ar Fae Ceredigion, y bae mwyaf yng Nghymru, mae ganddi dros 50 milltir o arfordir, ynghyd â chefnwlad fynyddig. Yn cael ei diffinio gan afonydd, mae Ceredigion yn gartref i aber Afon Dyfi yn y gogledd ac Afon Teifi yn y de, y ddwy yn ffurfio ffiniau naturiol ym mhegynau gogleddol a deheuol y sir.

Yn ystod y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, bu Sir Aberteifi yn gartref i nifer o ddiwydiannau; cyn i'r harbwr siltio, roedd y prif borthladd a oedd yn gwasanaethu De Cymru wedi'i leoli yn Aberteifi. O ganlyniad, daeth economi'r sir i fod yn ddibynnol iawn ar amaethyddiaeth da byw i'w gwerthu yn y farchnad. Yn ystod yr 20fed ganrif, profodd y diwydiant magu da byw ostyngiad mewn proffidioldeb. Dewisodd pobl fudo i ardaloedd mwy llewyrchus yng Nghymru ac ymhellach, ac arweiniodd hyn at ostyngiad ym mhoblogaeth y sir.

Mae Ceredigion wedi'i hamgylchynu â môr a thirweddau hynod o hardd, ac mae safon yr amgylchedd yn rhagorol. Mae perthynas pobl â'r dirwedd amrywiol hon o ffermdir, dyffrynnoedd afonydd coediog, a threfi marchnad bach ond cydnerth wedi llunio hanes y sir, ac mae iddo werth sylweddol o ran yr economi a menter.

Mae tref fwyaf Ceredigion, Aberystwyth, yn un o'i dwy ganolfan weinyddol ac yn gartref i nifer o sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ysbyty Bronglais, a Phrifysgol Aberystwyth; yr ail yw Aberaeron, cartref Cyngor Sir Ceredigion.

Ystyrir Ceredigion yn ganolfan diwylliant Cymreig gan lawer, ac, yn ôl cyfrifiad 2021, mae 43.5% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae tref Llanbedr Pont Steffan hefyd yn gartref i brifysgol gyntaf Cymru: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.





Ceredigion landscapes

1. Llandysul mountains
2. Aberystwyth seas


© Rural Office 2023


## 2.2 Trefi gwledig

Mae Ceredigion yn sir brin ei phoblogaeth a helaeth yn ddaearyddol, ac mae'n cynnwys chwe phrif dref: Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Wedi'u gwasgaru rhwng y trefi hyn ac yn gydgysylltiedig â nhw y mae trefi a phentrefi llai, a hynny ledled tirwedd ddiwylliannol unigryw. Felly mae cysylltedd yn rhan bwysig ac annatod o unrhyw strategaeth adfywio gan fod y trefi hyn i gyd â chysylltiadau cryf a set ryngddibynnol o swyddogaethau, amwynderau a gwasanaethau.

Mae gan y sir gyfoeth o asedau cynhenid rhagorol a thirwedd naturiol unigryw. Mae'r trefi'n meddu ar hanfod rhai o'r perthnasoedd allweddol â harbwrs, afonydd, mynyddoedd ac arfordir sy'n gwneud tirwedd y rhanbarth mor nodedig.

O'u defnyddio mewn modd effeithiol, gall y nodweddion rhanbarthol hyn wella ansawdd bywyd preswylwyr a darparu'r sylfeini ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar y cryfderau neilltuol cyfredol, sy'n cynnwys arlwy twristiaeth ac iddo'r potensial i gynyddu niferoedd yr ymwelwyr a'r incwm trwy gydol y tymor, a hynny'n rhan o arlwy, llwybr neu daith ledled y sir. Ynghyd â buddsoddiad mewn dysgu, sgiliau, a marchnadoedd llafur lleol eraill, sydd hefyd yn ofynnol ar gyfer adfywio'r economi sylfaenol a gwella cryfderau cyfredol y sector (gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth, bwyd a diod, masnach cyfanwerthu a manwerthu).

O ran trafnidiaeth, mae Lein y Cambrian yn darparu gwasanaethau rheilffordd sylfaenol rhwng Aberystwyth, Amwythig a Birmingham, lle gall teithwyr ymuno â gwasanaethau ar gyfer Llundain a mannau eraill. Mae bysiau lleol yn gwasanaethu prif drefi Ceredigion, ac mae gwasanaethau pellter hir yn bodoli rhwng Aberystwyth a Chaerdydd, gan deithio trwy Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan. Mae Bwcabus, gwasanaeth bws lleol sy'n gweithredu yn ne'r sir, yn cynnig cludiant sy'n cael ei deilwra ar gyfer preswylwyr gwledig.






© Rural Office 2023

## 2.3 Amcanion adfywio


Mae maint a lleoliad Ceredigion yn ei chyd-destun cenedlaethol yn golygu bod yna sawl her i dwf ei heconomi. Serch hynny, mae safle strategol Ceredigion yn darparu nifer o gyfleoedd i newid, tyfu ac addasu i ddyfodol economaidd cynaliadwy a bywiog.

Mae'r strategaeth adfywio hon yn ymgorffori amcanion llesiant ac uchelgeisiau 'Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-2027' ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sydd fel a ganlyn:

- hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth;
- creu cymunedau gofalgar ac iach;
- darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu i bob oed;
- a chreu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd ac iddynt gysylltiadau da.

Yn ogystal â'r uchod, mae cynllun economaidd y rhanbarth, 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35', yn nodi sefyllfa economaidd gyfredol y sir a'r heriau allweddol o ran twf yr economi leol, ac yn amlinellu strategaeth a chyfres o ymyraethau allweddol hyd at 2035 i gyflawni "twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion". Y sbardunau economaidd, a amlinellir gyferbyn, yw'r egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth ar gyfer adfywiad yn Aberystwyth.

Ar wahân i gynyddu twf economaidd mewn cymunedau lleol, mae'n bwysig rhoi pwyslais ar hyrwyddo ffyniant a rennir ledled y sir. Mae hyn yn golygu datblygu strategaeth ranbarthol i ddelweddu a chreu Ceredigion ffyniannus, iach ac egnïol y mae ar bobl eisiau byw a gweithio ynddi.



'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'

Ysgogwyr economaidd cynllun economaidd y rhanbarth.

### Menter

Cefnogi busnesau a chymunedau

- Cefnogi'r broses o greu busnesau newydd yng Ngheredigion a helpu busnesau cyfredol i dyfu
- Meithrin ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Ceredigion yn lle gwych i sefydlu a thyfu busnesau
- Cryfhau a manteisio ar gyfleoedd allweddol ar gyfer sectorau allweddol: bwyd, ffermio, amaeth-dechnoleg, twristiaeth, awyrofod, biowyddoniaeth
- Mynd i'r afael â gwendidau strwythurol a diffyg yn y farchnad lle maent yn bodoli yn Economi Sylfaenol Ceredigion (ac yn benodol yn y sectorau Adeiladu a Gofal)
- Sicrhau bod gan Geredigion y seilwaith i gefnogi cyfleoedd i dyfu
- Datblygu a chynnal dull cydweithredol cadarn wrth ymdrin â thwf economaidd

### Cysylltedd

Cysylltu busnesau a chymunedau

- Gwella'r rhwydwaith ffyrdd
- Gwella'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion
- Cefnogi a hyrwyddo teithio llesol
- Datgarboneiddio trafnidiaeth
- Hyrwyddo rhwydwaith trafnidiaeth integredig ar gyfer cymunedau gwledig
- Gwella rhwydwaith y grid trydan
- Datgarboneiddio'r rhwydwaith ynni
- Archwilio potensial economi hydrogen
- Datblygu dull strategol wrth ymdrin â rhwydweithiau digidol
- Gwella'r cysylltedd digidol yng Ngheredigion
- Gwella'r lefelau ecsbloetio digidol yng Ngheredigion

### Pobl

Ysbrydoli pobl, gan ddatblygu sgiliau, iechyd a llesiant

- Saernïo cysylltiadau cadarnach rhwng gweithwyr y dyfodol a chyflogwyr
- Gweithlu medrus ac arloesol a arweinir gan gyflogwyr
- Creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar entrepreneuriaeth
- Hyrwyddo Ceredigion fel lle cadarnhaol i fyw, astudio, gweithio a thyfu ynddo
- Mynd ati mewn modd cadarnhaol i hyrwyddo cyfleoedd i bawb elwa o dwf economaidd

### Lle

Hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef

- Nodi a darparu cyfleoedd i wella mannau byw, gweithio a hamdden yn y dref
- Cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy
- Sicrhau bod gan Geredigion safleoedd strategol effeithiol ar gyfer cyflogaeth
- Datblygu a gwella asedau gwyrdd Ceredigion
- Gwella'r canfyddiad o Geredigion fel lle bywiog i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef
- Gwneud Ceredigion yn lle bywiog ar gyfer digwyddiadau


© Rural Office 2023


Rhybudd
Caution

## 3.1 Y cyd-destun lleol

Mae Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, sef strategaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, yn gosod Aberystwyth yn Ardal Twf Rhanbarthol Canolbarth Cymru, sy'n cadarnhau ei le o fod yn anheddiad o bwysigrwydd rhanbarthol yng Ngheredigion a Chanolbarth Cymru.

Mae gan Aberystwyth, tref fwyaf y rhanbarth, amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac mae'n gartref i ystod o sefydliadau a chyfleusterau sy'n cynnwys gwasanaethau gofal iechyd hanfodol megis Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Prifysgol Aberystwyth, a'r Llyfrgell Genedlaethol. Yn rhanbarth Canolbarth Cymru, mae Aberystwyth yn ardal gyflogaeth allweddol, ac mae hefyd yn darparu ystod eang o gyfleusterau hamdden a thwristiaeth.

Mae tref Aberystwyth, sy'n cynnwys Llanbadarn Fawr, Waunfawr a Phenparcau yn ei grŵp aneddiadau, wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Ceredigion, ac mae'n gartref i tua 15% o gyfanswm poblogaeth y sir – 10,709 yn ôl cyfrifiad 2021. Mae'n cyflawni swyddogaeth ehangach na llawer o'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol eraill, fel y'u diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion. Mae nifer o'r aneddiadau cyfagos yn dibynnu ar Aberystwyth am nwyddau cyfleus a gwasanaethau. Er ei bod yn dref gymharol ffyniannus ac iddi bwysigrwydd strategol, mae canol y dref yn tanberfformio ar hyn o bryd.

I gefnogi'r rôl ranbarthol hon, dyrannwyd ffigur twf tai o 1877 o unedau i Aberystwyth yn y CDLl cyfredol. Mae'r datblygiad hwn wedi'i ganoli'n bennaf ar hap-safleoedd a datblygiadau tir llwyd, sydd wedi cynnwys addasu hen safleoedd megis tiroedd Ysgol Ardwyn a newid eiddo hŷn yng nghanol y dref yn fflatiau.

Mae pwysigrwydd rhanbarthol Aberystwyth yn cael ei gadarnhau gan yr orsaf drenau sy'n darparu gwasanaethau trwy rannau o Ganolbarth Cymru a thu hwnt. Dyma'r unig brif dref yn y sir a wasanaethir gan orsaf drenau.

## 3.2 Treftadaeth

Mae gan Aberystwyth, a sefydlwyd ar ddiwedd y 13eg ganrif, hanes amrywiol a adlewyrchir yn natblygiad y dref dros y canrifoedd. O ystyried ei threftadaeth bensaernïol a datblygiad cyrchfan glan môr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â'r ffaith ei bod yn tarddu o anheddiad canoloesol, mae i'r dref gryn arwyddocâd hanesyddol.

Roedd yna furiau i'r dref yn wreiddiol, a gellir olrhain llinell y muriau hyn o hyd yn Stryd y Ffynnon Haearn, Stryd y Popty, Dan Dre a Stryd y Brenin. Mae mwyafrif yr adeiladau yn y craidd hanesyddol yn adlewyrchu hanes diweddarach y dref o fod yn ganolfan gymdeithasol a masnachol ac yn gyrchfan. Ac eithrio'r castell, nid yw'n hysbys bod unrhyw adeiladau canoloesol wedi goroesi.

Cydnabyddir natur arbennig y treflun, y mae adeiladau o'r cyfnod Sioraidd hwyr a'r cyfnod Fictoraidd yn tremio drosto, gan y ffaith bod dwy ardal gadwraeth wedi'u dynodi yno, sy'n cynnwys nifer o Adeiladau Rhestredig. Mae glan y môr hefyd yn gartref i adeilad yr Hen Goleg, sy'n Adeilad Rhestredig Gradd I, a Chastell Aberystwyth, un o Henebion Rhestredig amlycaf y sir. Mae rhai o'r adeiladau cynharaf yn y dref yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif: Y Llew Du, yr hen Swyddfa'r Post, a sawl siop ar y Stryd Fawr a Stryd y Frenhines. Mae llawer o'r adeiladau yng nghanol y dref wedi cadw eu blaen siop hanesyddol, sy'n ychwanegu at gymeriad y dref. Mae Campws Penglais Prifysgol Aberystwyth yn cynnwys Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig sydd ar un o'r arfordiroedd mwyaf agored ym Mhrydain. Mae prifwyntoedd y de-orllewin yn cael cryn effaith arnynt ond mae lleiniau cysgodi bellach yn gwarchod y safle.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ased Hanesyddol Dynodedig a Pharc a Gardd Cofrestredig.



© Rural Office 2023

## 3.3 Demograffeg

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, sef y mesur swyddogol o amddifadedd cymharol, yn gosod ardaloedd bach yng Nghymru rhwng 1 (yr ardaloedd mwyaf difreintiedig) a 1,909 (yr ardaloedd lleiaf difreintiedig). Yn Aberystwyth, yr ardal fwyaf difreintiedig yw Penparcau, sydd yn safle 533. Mae sawl ardal arall yn perthyn i'r categori lleiaf difreintiedig, gan gynnwys Bronglais, Rheidol, a De Llanbadarn Fawr.

Yn ôl canlyniadau cyntaf cyfrifiad 2021, bu gostyngiad o 5.8% yng Ngheredigion o ran y duedd yn y boblogaeth, a hynny o tua 75,900 yn 2011 i 71,500. Fodd bynnag, tyfodd cyfanswm poblogaeth Cymru 1.4%, sef cynnydd o 44,000 o bobl i 3,107,500. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae gan Aberystwyth boblogaeth o 10,709 o gymharu â 18,965 yng nghyfrifiad 2011.

O ystyried maint a chyfran y gymuned Gymraeg ei hiaith, yr amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, a lefel y datblygiad arfaethedig, mae Datganiadau Grwpiau Aneddiadau'r CDLl yn gwneud y dyfarniad a ganlyn:

"Oherwydd maint a swyddogaeth Aberystwyth, ystyrir y gellir ymdopi'n hawdd â lefel y datblygiad arfaethedig heb unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y gymuned na'r iaith Gymraeg".

Mae Ward Tref Aberystwyth, sydd â 40% o siaradwyr Cymraeg, wedi gweld gostyngiad o 2% ers cyfrifiad 2011. Mae ganddi'r ganran isaf o breswylwyr Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, sy'n arwydd o ddylanwad y brifysgol a sefydliadau eraill yn y dref. Gan fod Aberystwyth yn un o drefi mwyaf Ceredigion a'r un fwyaf hygyrch, mae'n debygol o weld y nifer mwyaf o fudwyr di-Gymraeg.

### Cymru


Poblogaeth

Grwpiau Oedran
0-14
15-64
65+

Oedran Canolrifol

Hunaniaeth Gymreig yn unig

Ethnigrwydd
Gwyn 91%
Heb fod yn Wyn 9%




### Ceredigion


Poblogaeth

Grwpiau Oedran
0-14
15-64
65+

Oedran Canolrifol

Hunaniaeth Gymreig yn unig

Ethnigrwydd
Gwyn 96%
Heb fod yn Wyn 4%





Poblogaeth

Grwpiau Oedran
0-14
15-64
65+


Oedran Canolrifol

Hunaniaeth Gymreig yn unig

Ethnigrwydd
Gwyn 90%
Heb fod yn Wyn 10%




Galwedigaeth




Data demograffig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Ffynhonnell y data: SYG 2021


© Rural Office 2023

## 3.4 Blaenoriaethau Cenedlaethol

Mae'r amcanion adfywio ar gyfer pob un o chwe thref wledig strategol Ceredigion yn cael eu llywio gan y weledigaeth a'r gwerthoedd a amlinellir mewn polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Dylai unrhyw brosiect yr ymgymerir ag ef sefydlu'r Pum Ffordd o Weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei ddull o fynd i'r afael â'r cynllunio a'r datblygu. Mae hyn yn cwmpasu'r canlynol:

- Yr hirdymor: cydbwyso anghenion byrdymor ar yr un pryd â diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor;
- Integreiddio: ystyried y modd y mae'r prosiect yn effeithio ar nodau llesiant y trefi a nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill;
- Ymgysylltu: sicrhau bod cynlluniau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid cymunedol ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal;
- Cydweithredu: tynnu sylw at a gweithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr eraill y bydd perthynas waith gydweithredol â nhw yn ychwanegu gwerth;
- Atal: deall y modd y gall ymyraethau targededig gyfrannu at atal problemau, neu eu helaethu neu eu gwaethygu.

Mae'r saith nod llesiant yn dangos y Gymru yr ydym yn dymuno byw a gweithio ynddi; maent yn llywio cynlluniau adfywio'r dref, ac yn ymdrechu am ddyfodol cynaliadwy. Mae'r nodau hyn fel a ganlyn: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae adroddiad Archwilio Cymru, 'Adfywio Canol Trefi yng Nghymru', yn disgrifio'r modd y mae gan ganol trefi y potensial i fod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy, ond bod penderfyniadau ac arweinyddiaeth uchelgeisiol yn ofynnol i fynd i'r afael â'u heriau cyfredol. Mae newid cymdeithasol a thechnolegol, y twf mewn gwasanaethau ar gyrion y dref, a cholli gwasanaethau hanfodol, megis swyddfeydd post a banciau, wedi cael effaith sylweddol ar ganol trefi. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen sefydlu diben canol trefi a nodi ymyraethau targededig clir.

Er bod adfywio canol trefi yn parhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol, nid yw polisi Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto. Yn ogystal ag awdurdodau lleol a chenedlaethol, mae angen i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac mewn cynghorau tref a chymuned, cymunedau a busnesau fod yn rhan o'r penderfyniadau.




Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, mynd ati i wella eu ffyrdd o weithio gyda phobl, cymunedau, a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.



2021-2030 Cyflawni carbon sero net

Yn nodi'r modd y mae Ceredigion yn bwriadu ymateb i'r argyfwng hinsawdd sirol. Mae'n asesu allyriadau carbon gweithredol presennol y sir ac yn amlinellu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r targed uchelgeisiol hwn ar gyfer 2030.



Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040

Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni'r gwaith o ddatgarboneiddio, a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.



Datblygu a'r perygl o lifogydd

Mae polisi a chanllawiau cynllunio, megis TAN 15, yn mynd i'r afael ag ymarferoldeb rheoli dŵr ac yn cydnabod bod afonydd a thraethlinau yn brosesau naturiol ac iddynt ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â llunio'r amgylchedd.



Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

Trosolwg o'r modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn adfywio canol eu trefi, gan ddod i'r casgliad bod canol trefi wrth graidd bywyd yng Nghymru ac yn gallu bod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy.



Y rhaglen LEADER

Yn cael ei ariannu trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (2014-2020), mae'r rhaglen LEADER wedi'i chynllunio i annog pobl, busnesau a chymunedau lleol i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu atebion cynaliadwy, ond arloesol, i fynd i'r afael â heriau cyfredol.


© Rural Office 2023

### 3.5 Trosolwg cyllid

Mae'r dirwedd ariannu statudol wedi bod yn ansicr gydol yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, cafwyd lefelau sylweddol o fuddsoddiad mewn datblygiadau cyfalaf ledled y DU. Yr ysgogiad ar gyfer hyn oedd cyflwyno arian loteri, ynghyd ag argaeledd cyllid yr UE trwy Gronfeydd Strwythurol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn lefelau cyllid cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei gofnodi'n helaeth, ac mae pob rheswm i gredu y bydd y dirywiad yn parhau ac, o bosibl, yn cyflymu mewn rhai rhanbarthau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae effaith COVID-19 wedi golygu bod gwariant cyhoeddus dan bwysau yn fwy cyffredinol, a bydd hyn, yn anochel, yn golygu mwy o gystadleuaeth am unrhyw arian sydd ar gael o hyd.

Mae'r broses o flaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol yn debygol o gael ei llywio gan amrywiaeth o ffactorau, ond mae Ceredigion mewn sefyllfa dda i elwa o fuddsoddiad os gall prosiectau fod yn gyson â blaenoriaethau strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

Yn seiliedig ar raglenni ariannu diweddar a chyfredol, mae hwn yn rhoi cipolwg ar y mathau gwahanol o ffrydiau ariannu sydd ar gael o ffynonellau statudol. Dylid nodi hefyd fod rhaglenni ariannu newydd (a chylchoedd ariannu rhaglenni cyfredol) yn ymddangos yn barhaus:

- Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF)
- Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru: Bargen Dwf Canolbarth Cymru
- Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Y Gronfa Ffyniant Bro
- Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI): Innovate
- Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru: Cronfa'r Pethau Pwysig
- Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru: Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth, Cymru (CBTC)
- Llywodraeth Cymru: Cronfa Cymunedau'r Arfordir
- Llywodraeth Cymru: Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol
- Llywodraeth Cymru: Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid MALD
- Arall Llywodraeth Cymru: Ardoll Dwristiaeth

### 3.5.1 Arian y Loteri

Mae'r gyfran o arian y Loteri Genedlaethol sydd ar gael i achosion da yn dibynnu ar werthiant tocynnau loteri. Ar ôl rhai blynyddoedd o ddirywiad, gan roi pwysau ar yr arian a oedd ar gael, mae gwerthiant tocynnau wedi gweld cynnydd graddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf gostyngiad o 3% mewn gwerthiannau yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, roedd cyfran yr incwm i achosion da ychydig yn uwch na'r llynedd. Ymhlith y rhaglenni grant sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys rhaglenni grant Llywodraeth Cymru a ddosberthir trwy gyrff loteri, y mae:

- Cyngor Celfyddydau Cymru: Rhaglen Loteri Cyfalaf
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Cronfa Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Pobl a Lleoedd
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Prif grant
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru: Y Gronfa Rhwydweithiau Natur



Yr Hen Goleg

Golygfa o'r Hen Goleg o Faes Lowri, teras o dai tref yn dyddio o ganol y 19eg ganrif.

### 3.5.2 Ffynonellau dyngarol y sector preifat

Rhoddodd y 300 o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol gorau yn y DU £3.48 biliwn yn 2019-2020, a oedd yn dwf o bron 8% o'r flwyddyn flaenorol. Mae'n well gan lawer o ymddiriedolaethau elusennol roi i elusennau llai, lle y gall eu grantiau gael effaith gyfrannol fwy. Fodd bynnag, gall datblygiadau cyfalaf mawr ddenu rhai o'r rhoddion mwyaf sylweddol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, ond dim ond un neu ddau o grantiau o'r fath y flwyddyn y gall ymddiriedolaeth fawr yn y DU eu rhoi, ac mae'r gystadleuaeth yn gref.

Mae'r grantiau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar un neu fwy o'r themâu canlynol:

- Adeiladau newydd uchelgeisiol a gynlluniwyd i hyrwyddo rhagoriaeth ymchwil o'r radd flaenaf (yn aml mewn meysydd ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd, neu sydd o ddiddordeb penodol i'r cyllidwr).
- Treftadaeth – adfer, ailddatblygu neu gynyddu mynediad i adeiladau o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol sylweddol.
- Cyfleusterau a fydd o fudd i nifer mawr o fyfyrwyr neu'r gymuned ehangach, neu a fydd yn hybu dysgu ymhlith aelodau'r naill garfan neu'r llall. Mae i'r adeiladau hyn fynediad cyhoeddus fel rheol. Er enghraifft, llyfrgelloedd, casgliadau amgueddfeydd prifysgolion, a lleoliadau celfyddydol sy'n eiddo i brifysgolion.
- Prosiectau grymus sy'n galluogi newid gwirioneddol, neu sy'n sicrhau newid sylweddol yn y ddarpariaeth; thema drawsbynciol sy'n berthnasol ledled amrediad o sectorau a gefnogir gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.
- Mae gwerth am arian hefyd yn ystyriaeth allweddol.

### 3.5.3 Gwerth cymdeithasol

Yng Nghymru, mae pwysigrwydd gwerth cymdeithasol yn cael ei gydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae yna nifer o ddulliau o'i fesur. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, mae Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (a elwir yn TOMs Cenedlaethol Cymru) yn cael ei gymeradwyo gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae'r canllawiau ar ddefnyddio TOMs Cenedlaethol Cymru yn rhoi dealltwriaeth o'r modd y gall sefydliadau ddefnyddio'r fframwaith i ychwanegu gwerth at gymunedau a'r economi leol trwy gaffael blaengar. Mae'n caniatáu i werth ariannol gael ei osod ar eu cyfraniad i gymdeithas, a hynny trwy ddefnyddio set o 'werthoedd procsi'. Nid yw gwerth cymdeithasol yn ymwneud â budd ariannol yn unig, ond mae defnyddio'r gwerthoedd procsi yn helpu o ran deall graddfa ac ehangder yr effaith y gall mesur ei chael, ac o ran gallu cyfiawnhau penderfyniad caffael yn well.

Mae TOMs Cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar gyfres o Themâu, Canlyniadau a Mesurau:

- Themâu – y themâu neu'r nodau strategol trosfwaol y mae sefydliad yn bwriadu eu dilyn, ac sydd wedi'u strwythuro ar sail saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Canlyniadau – yr amcanion, neu'r nodau, y mae sefydliad yn ceisio eu cyflawni ac sy'n cyfrannu at y thema.
- Mesurau – y mesurau, neu'r gweithgareddau, y gellir eu defnyddio i asesu a weithredwyd neu a gyflawnwyd y canlyniad.

Nid yw'r fframwaith yn offeryn sefydlog, ac mae'n esblygu i adlewyrchu anghenion a phwysau newidiol mewn cymdeithas, a'r bwriad yw iddo gael ei ddiweddaru'n flynyddol.


© Rural Office 2023

## 3.6 Themâu craidd

Mae strategaeth adfywio pob tref yn nodi cyfres gyffredin o themâu trawsbynciol, a amlinellir gyferbyn, sy'n adlewyrchu strategaeth economaidd Ceredigion, 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35', y mae ei ffocws ar Bobl, Lle, Menter a Chysylltedd. Gyda'i gilydd, mae'r themâu craidd hyn yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer lleoedd cynaliadwy.

Mae'r strategaeth yn nodi'r modd y mae ymyraethau targededig yn galluogi cymunedau i gydweithio tuag at gyflawni twf economaidd cadarn, cynaliadwy a mwy cydnerth ar gyfer Aberystwyth, twf sy'n cael ei greu gan bawb a'i rannu â phawb.

Mae ymyraethau arfaethedig sy'n dod o dan un neu ragor o'r themâu hyn yn cysylltu mewn modd tebyg â pholisi cenedlaethol a lleol, ac yn cefnogi nodau ac amcanion allweddol y strategaeth hon yn uniongyrchol.

### Teithio Llesol

Datblygu a hyrwyddo rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio dynodedig sy'n cysylltu pobl a lleoedd, ac a fydd yn rhan o'u teithiau bob dydd.

### Amgylchedd

Hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Gwarchod cynefinoedd naturiol i annog bioamrywiaeth.

### Creu Lleoedd

Datblygu mannau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd.

### Busnes

Cefnogi busnesau a mentrau newydd a chyfredol ac eiriol drostynt. Sefydlu a chynnal seilwaith i gefnogi gwelliant economaidd.

### Iechyd

Creu canol trefi bywiog sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd ac ar iechyd, hapusrwydd a ffyniant hirdymor cymunedau.

### Sgiliau

Darparu cyfleoedd i gaffael a datblygu sgiliau a chymwyseddau gwaith craidd, sy'n annog dilyniant mewn hyfforddiant penodol neu ddewisiadau gyrfa yn y gymuned leol.

### Cymeriad

Datblygu cymeriad hanesyddol a threftadaeth lleoedd i ddenu pobl i fyw ynddynt ac ymweld â nhw.

### Y Stryd Fawr

Ystyried rôl y stryd fawr yn y dyfodol a'r modd y gallai gefnogi esblygiad canol tref i fod yn lle bywiog i fyw a gweithio ynddo, ac ymweld ag ef.

### Twristiaeth

Annog twristiaeth adfywiol, sef ffordd gynaliadwy o ddarganfod lleoedd newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau ac economïau lleol.

### Cymuned

Hyrwyddo adfywiad a arweinir gan y gymuned. Nodi materion a chyfleoedd o fewn ardaloedd lleol a gwneud newidiadau sy'n cael effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gadarnhaol.

### Tirwedd

Cynyddu cydnerthedd yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol mewn amgylchedd naturiol.

### Teithio a Thrafnidiaeth

Hyrwyddo teithio hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon. Gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis deniadol.

### Cyrchfan

Nodi a datblygu lleoedd sy'n creu profiadau bythgofiadwy, profiadau y bydd llawer o sgwrsio yn eu cylch.

### Dysgu

Sicrhau bod cyfleusterau a fframweithiau yn bodoli i ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

### Llesiant

Lleihau'r gwahaniaethau mewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog.


© Rural Office 2023

2035 Aberystwyth

Mae’n brifddinas ddiwylliannol a chyrchfan Gymreig sy’n cefnogi amrywiaeth o fusnesau, mentrau a chyfleoedd addysgiadol.




4.1 Gweledigaeth

Aberystwyth yw tref fwyaf y sir, a'i phrif ganolfan gwasanaethau. Mae'r dref yn gartref i nifer o sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol y mae iddynt bwysigrwydd diwylliannol hirsefydlog. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth, fel ei gilydd, yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth y dref a'i hanes nodedig o addysgu, dysgu ac ymchwil. Yn sail i'r strategaeth adfywio, felly, y mae cryfderau'r perthnasoedd presennol hyn, a safle strategol y dref mewn perthynas â rhanbarth ehangach Canolbarth Cymru.

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu canol y dref i fod yn gyrchfan i breswylwyr, a hefyd i ymwelwyr byrdymor a hirdymor; cyrchfan i aros ynddi, ei mwynhau, a'i darganfod. Bydd ailddychmygu a buddsoddi mewn amwynder glan y môr sy'n dirywio, yn ogystal ag eiddo yng nghanol y dref, yn datgloi'r potensial i wella'r profiad o'r Stryd Fawr, denu gweithgarwch masnachol newydd, a sefydlu ystod eang o wasanaethau.

Mae canolfan hanesyddol, castell a hanes canoloesol Aberystwyth o bwys lleol a rhanbarthol, ac mae angen eu rheoli'n ofalus yn rhan o'r rhaglen adfywio. Mae yna lefelau cymharol uchel o fannau gwyrdd a phocedi o weithgarwch hamdden ledled y dref. Bydd cysoni buddsoddiad â'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd a Glas (GBI) yn helpu i sicrhau bod yr amwynder hwn yn hygyrch, ac yn cael ei wella a'i ddefnyddio mewn modd mwy effeithiol. Mae'r weledigaeth hon yn sail i newidiadau hirdymor i'r seilwaith priffyrdd a'r cysylltedd ledled y dref, newidiadau a fydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau darpariaeth Teithio Llesol, ac yn adfer cyfres o rodfeydd i fod yn goridorau gwyrdd a thirweddau dynesu at ganol y dref.

I sefydlu Aberystwyth yn gyrchfan leol, ranbarthol a chenedlaethol, bydd yn ofynnol cael mynediad mwy gweladwy i wasanaethau'r dref, y Stryd Fawr a chyfleusterau cymunedol fel y gellir sylfaenu set o berthnasoedd rhyng-gysylltiedig sy'n hanfodol i adfywio economaidd hirdymor. Yn rhan o bortffolio ehangach o weithgarwch canol tref, bydd rhaglennu digwyddiadau a gwyliau lleol yn anhepgor i'r broses o gydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ffocws a'r balchder presennol mewn diogelu diwylliant bywiog, y Gymraeg a gwerthoedd croesawgar. Mae'n bwysig bod canlyniadau adfywiol yn darparu budd cyfartal i breswylwyr lleol ac ymwelwyr, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu tref fywiog a llewyrchus i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddi, ac ymweld â hi.




Y weledigaeth adfywio

Meysydd allweddol yr eir i'r afael â nhw yn y strategaeth adfywio.

1 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
2 Gorsaf Drenau Aberystwyth
3 Yr hen Swyddfa'r Post
4 Y Pier Brenhinol
5 Tir y Castell Aberystwyth
6 Marina Aberystwyth
7 Prifysgol Aberystwyth



© Rural Office 2023

## 4.2 Adborth rhanddeiliaid

Mae'r cynllun adfywio wedi deillio o sgyrsiau ag awdurdodau lleol a phreswylwyr, ac mewn gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Yn seiliedig ar y canlyniadau, mae'r strategaeth yn pennu cyfres o ymyraethau targededig a phrosiectau ategol allweddol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer rhoi'r eitemau hyn ar waith.

Gwahoddwyd y rhanddeiliaid i ymateb i'r pynciau canlynol:

- Asedau

  Beth sy'n gweithio'n dda yn eich tref ar hyn o bryd?

- Gweledigaeth

  Disgrifiwch sut olwg a fydd ar eich tref mewn deng mlynedd.

- Ymyrraeth

  Pa newid a fyddai'n trawsffurfio eich tref fwyaf?

- Yr Economi

  Sut y gallai economi eich tref fod yn fwy cynaliadwy a chydnerth?

Gyda'n gilydd, bu i ni gynnal ymarfer creu gweledigaeth – sef plotio'r modd y gallai Aberystwyth edrych ymhen 5, 10, ac 20 mlynedd. Trwy fapio, nododd aelodau'r gymuned ymyraethau targededig yn y dref.

Darparodd 12 o gynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid allweddol fwy na 140 o eitemau o adborth mewn fformatau gwahanol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei dadansoddi, ac fe'i hadlewyrchir yn y strategaeth adfywio i amlygu'r materion, yr anghenion a'r syniadau a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy.



Gweledigaeth

"Mannau gwyrdd yng nghanol y dref"



Gweledigaeth

"Strydoedd ochr/alïau bywiog"

Economaidd

"Diwydiannau amrywiol\ Digwyddiadau amrywiol – o fudd i bawb yn y pen draw"



Ymyrraeth

"Ar wahân i siopau, beth a all fod ar y Stryd Fawr?"



Ymyrraeth

"Strategaeth barcio"

Economaidd

"Cymorth i fusnesau/ entrepreneuriaid"

Ymyrraeth

"Mwy o wasanaethau Parcio a Theithio"

Gweledigaeth

"Busnesau bach annibynnol – yn ennyn balchder"

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ffotograffau ac adborth o weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd i drafod adfywiad yn Aberystwyth.


© Rural Office 2023

## 4.3 Dadansoddiad

Mae'r canlynol yn adlewyrchu ymchwil i gyfleoedd a chyfyngiadau presennol, yn cynnwys deddfwriaeth gynllunio, gan roi ystyriaeth i asedau allweddol y dref.

### 4.3.1 Cyfyngiadau cynllunio

Yn ystod degawd cyntaf yr 21ain ganrif, bu i'r gwaith o ehangu Prifysgol Aberystwyth a datblygiadau manwerthu a swyddfeydd yn y dref arwain at gynnydd sylweddol yn llif y traffig. Mae hyn wedi arwain at dagfeydd yn ystod cyfnodau prysur yn Llanbadarn Fawr, lle mae cefnffordd yr A44 yn ymuno â'r A4120 – y prif gyswllt â choridor arfordirol cefnffordd yr A487.

Mae dwy Ardal Gadwraeth yn cwmpasu Canolfan Gwasanaethau Trefol Aberystwyth. Mae dros 250 o Adeiladau Rhestredig wedi'u lleoli yn y ffurf adeiledig ac mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u lleoli ar y cyrion.

Mae rheoliadau llifogydd yn gyfyngiad ychwanegol gan fod cyfran sylweddol o'r ffurf adeiledig mewn parthau llifogydd. Mae'r prif risg o lifogydd yn llanwol ac afonol eu natur, yn enwedig mewn perthynas ag afonydd Rheidol ac Ystwyth. Mae risgiau posibl eraill yn cynnwys llifogydd arfordirol o ganlyniad i donnau'n torri dros rwystrau, ynghyd â llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, cyrsiau dŵr mewn ceuffosydd, carthffosydd, a dŵr ffo arwyneb.

Mae ansawdd tai gwael yn bryder mawr; mae dwy ardal breswyl yn ddwy o'r deg ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae cymryd trosolwg cyffredinol o'r dref yn celu'r amddifadedd cymdeithasol ac economaidd dwfn, sy'n cynnwys cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch uchel, ansawdd tai gwael a lefelau sgiliau isel yn wardiau Penparcau a Rheidol – dwy ardal arwyddocaol yn Aberystwyth.

Mae'r CDLl yn amlygu'r angen am eiddo gwag i gyrraedd y targedau datblygu tai:

"Yn wahanol i aneddiadau eraill yn y sir, mae cyfran sylweddol o unedau preswyl yn debygol o ddod ar gael o ganlyniad i ailddefnyddio adeiladau gwag yn y dref, ailddatblygu tir gwag a thir a danddefnyddir, ac addasu adeiladau a thai mwy yn fflatiau. Gallai tua 500 o unedau ddod ar gael o hap-safleoedd o'r fath yn ystod cyfnod y Cynllun (2007-2022)."

Felly, mae'n debygol y bydd canol y dref yn gweld cynnydd mewn unedau preswyl a datblygiadau defnydd cymysg, elfennau a fydd yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar droed, ymdeimlad o ddiogelwch gan y bydd mwy o bobl ar y stryd, ac ymgysylltiad â'r economi leol.

O ganlyniad, addasu safleoedd gwag, y mannau cyrraedd, a llwybrau canol y dref yw'r meysydd ffocws rhesymegol ar gyfer y strategaeth adfywio hon.

Yn ôl Astudiaeth Capasiti Manwerthu Rhanbarthol De Cymru (South Wales Regional Retail Capacity Study), mae gan Aberystwyth ganol tref iach ar y cyfan, ac mae'n elwa o arlwy helaeth ac amrywiol sy'n darparu ar gyfer preswylwyr lleol, myfyrwyr ac ymwelwyr. Mae datblygiad yr unedau mwy ger yr orsaf wedi gwneud y ganolfan yn fwy deniadol i'r siopau cadwyn cenedlaethol sydd wedi crynhoi yma. Mae hyn yn ei dro yn cryfhau'r arlwy cyffredinol ac yn sicrhau tynfa masnach helaeth. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod yr astudiaeth hon wedi cael ei chynnal cyn pandemig COVID-19, ac felly mae'n bosibl nad yw'n cynrychioli arferion defnyddwyr cyfredol, na gweithgarwch manwerthu annibynnol yng nghanol y dref.

Mae datblygiad Tesco a Marks & Spencer yng nghanol y dref wedi cryfhau canol y dref a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r datblygiad yn dwysáu'r rhaniad ffisegol cyfredol rhwng yr unedau manwerthu modern mwy sydd wedi'u lleoli o amgylch yr orsaf drenau, a'r ardal siopa hanesyddol hŷn sydd wedi'i chanoli o amgylch y Stryd Fawr a Ffordd y Môr. Mae hyn yn golygu bod y cysylltiadau rhwng y ddwy ardal yn bwysig os yw'r ganolfan i hyrwyddo manteision cyffredinol y datblygiad newydd.

Yn yr hirdymor, mae yna gefnogaeth sylweddol i siopau manwerthu annibynnol lleol; fodd bynnag, mae'n ofynnol iddynt gael cymorth i fynd am unedau mwy. Mae'r gostyngiad presennol yng nghyfradd yr adeiladau gwag yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond mae'n ofynnol meddwl yn yr hirdymor i reoli rhenti unedau o'r fath.









Cyfyngiadau cynllunio

Mae yna sawl cyfyngiad cynllunio yn bodoli yn Aberystwyth, gan gynnwys o ran darparu tai, eiddo gwag, a llifogydd.




© Rural Office 2023

### 4.3.2 Yr afonydd a'r arfordir


A hithau wedi'i lleoli ar gydlifiad afonydd Rheidol ac Ystwyth, mae Aberystwyth yn darparu cyfleusterau hamdden a thwristiaeth yng nghanol Bae Ceredigion. Mae gwerth gweledol a synhwyraidd y dirwedd oddi amgylch yn uchel, ac mae gan y dref gymeriad hanesyddol a diwylliannol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae atyniadau megis y pier, y promenâd a'r harbwr yn ganlyniad i ddatblygu Aberystwyth yn y 19eg ganrif i fod yn dref glan môr, ac maent yn asedau allweddol a ddylai gael eu hymgorffori mewn gwelliannau creu lleoedd.

Mae'r arfordir yn cynnwys dau draeth sy'n cael eu gwahanu gan Gastell Aberystwyth. Mae canol y dref yn ffinio â'r promenâd, sy'n ymestyn am filltir o Graig Glais i'r harbwr ac yn cynnwys y Pier Brenhinol Rhestredig Gradd II nodedig, y pier pleser cyntaf i agor yng Nghymru.

Mae glan môr Aberystwyth yn tueddu i ddioddef o donnau'n torri dros y rhwystrau yn ystod ymchwydd stormydd, a hynny'n bennaf yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf, a disgwylir i amlder y stormydd hyn gynyddu gyda'r newid yn yr hinsawdd. Ceir llifogydd arbennig o sylweddol hefyd yng nghydlifiad yr afonydd ger y marina, yn ogystal ag ym mhen gogleddol y promenâd ac mewn ardaloedd i fyny Afon Rheidol.




Cysylltiadau arfordirol




Parthau llifogydd gyda'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio







Afon ac arfordir

1. Pier Aberystwyth
2. Afon Rheidol



© Rural Office 2023


### 4.3.3 Llwybrau teithio llesol

Mae Aberystwyth yn Dref Teithio Llesol a chanddi raglen o fuddsoddi mewn darpariaeth i gerddwyr a beicwyr i wella cysylltedd.

Mae Teithio Llesol yn flaenoriaeth allweddol yn Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021, ac fe'i nodir ar frig yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n llywio'r holl weithgarwch trafnidiaeth yng Nghymru. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio, gwella a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio. Dylai'r llwybrau hyn fod yn gydlynol, yn uniongyrchol, yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn ddeniadol ar gyfer teithiau bob dydd. Mae nifer o'r gwelliannau i'r seilwaith Teithio Llesol yn Aberystwyth, sy'n dref Teithio Llesol ddynodedig, wedi cael arian grant gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf i gynorthwyo cysylltedd a hyrwyddo cerdded a beicio ar hyd a lled y dref. Disgwylir i ragor o lwybrau cynlluniedig gael eu datblygu yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

Gwasanaethir rhwydwaith teithio integredig Aberystwyth gan wasanaethau bysiau lleol cylchol i gymdogaethau ar gyrion y dref, yn ogystal â chan lwybrau cysylltiol rhyng-sirol a rhyngranbarthol. Mae trafnidiaeth gyhoeddus o bwysigrwydd rhanbarthol, gyda'r orsaf drenau yn rhedeg gwasanaethau trwy rannau o Ganolbarth Cymru ac ymlaen i Loegr. Dyma'r unig drafnidiaeth gyhoeddus ar reilffordd yn y sir, ac mae'n gweithredu ar lein y Cambrian i Amwythig/Birmingham a Lein Arfordir y Cambrian i Bwllheli.

Mae cyfleoedd yn bodoli i wella'r cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr rhwng canol y dref a'r parthau addysg, iechyd, diwylliant, hamdden a phreswyl, gan annog Teithio Llesol yn hytrach na chludiant mewn cerbyd.




Teithio Llesol: Llwybrau Beicio a Llwybrau Troed

Asedau

"Man gwyrdd – Parc Penglais"

Asedau

"Amgylchedd diogel"

Asedau

"Cludiant cyhoeddus"

Asedau

"Nodwedd twristiaeth – yr amgylchedd naturiol"





Teithio cynaliadwy

Llwybrau teithio llesol a rhwydweithiau beicio o amgylch canol y dref.



© Rural Office 2023


### 4.3.4 Addysg a diwylliant

Mae Aberystwyth yn ganolfan bwysig o ran y celfyddydau, diwylliant a dysg. Ar hyn o bryd, mae'r dref yn darparu ystod o gynigion addysg gynradd, uwchradd, bellach ac uwch, ac mae'n gartref i nifer o sefydliadau cenedlaethol.
Lleolir Llyfrgell Genedlaethol Cymru gerllaw Campws Penglais Prifysgol Aberystwyth. Mae cyfleusterau addysgol lleol a rhanbarthol eraill yn cynnwys Coleg Ceredigion, Ysgol Uwchradd Penglais, Ysgol Uwchradd Penweddig, cyfleusterau Hyfforddiant Ceredigion a phedair ysgol gynradd.

Mae presenoldeb Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chwmni Theatr Arad Goch yn y dref, yn ogystal â'r myrdd o gynhyrchwyr celf a chrefft lleol, oll yn ystyriaethau diwylliannol sylweddol, ac yn gydrannau allweddol sy'n dylanwadu ar gydnerthedd yr economi leol.

Gallai defnyddio'r cyfleusterau arbenigol a'r arbenigedd cyfredol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a sefydliadau diwylliannol eraill arwain at integreiddio a meithrin rhagor o gydweithrediad rhwng y celfyddydau, diwylliant ac addysg yng nghanol y dref. Gellid gwireddu hyn trwy gynnal gweithdai a digwyddiadau mewn mannau yng nghanol y dref, gan ddefnyddio unedau manwerthu gwag i fod yn ardaloedd arddangos ar gyfer gwneuthurwyr ac artistiaid gweledol lleol, neu drwy ddatblygu hyb diwylliannol a fyddai'n gweithredu megis cyflwyniad i'r cyfleoedd ehangach y mae Canolfan y Celfyddydau yn eu darparu.

Mae Gŵyl Gomedi Machynlleth a gŵyl Lleisiau Eraill Aberteifi yn ddigwyddiadau poblogaidd sy'n tyfu, ac maent yn defnyddio amrywiaeth o leoliadau ar hyd a lled canol eu trefi. Gellid mabwysiadu dull tebyg at raglennu yn Aberystwyth, gan ganolbwyntio ar wyliau sy'n bodoli eisoes, megis MusicFest a gŵyl arswyd ryngwladol Cymru, Abertoir, a drefnir gan y Brifysgol, a hynny ochr yn ochr â digwyddiadau tymhorol eraill mewn sawl lleoliad yng nghanol y dref ar yr un pryd.




Asedau diwylliant, adloniant a hamdden

Asedau

"Prifysgol Aberystwyth University"

Asedau

"Aberystwyth Arts Centre - attracts diverse people"

Asedau

"University and education networks"

Asedau

"Host of several events"







Partha

1. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
2. Campws Penglais gyda Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn y cefndir


© Rural Office 2023

## 4.4 Effaith economaidd a gwerth cymdeithasol

Mae sgôr Coch/Oren/Gwyrdd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob prosiect i ddangos sgôr ei lefel macro o ran gwerth cymdeithasol ac effaith economaidd. Mae coch yn dynodi bod i brosiect effaith economaidd a gwerth cymdeithasol isel,
tra byddai statws gwyrdd yn dynodi effaith economaidd a gwerth cymdeithasol uchel.

Mae'r tabl isod yn dangos y modd y defnyddiwyd pum dangosydd effaith economaidd, pob un â thair sgôr.

Mae'r sgôr Coch/Oren/Gwyrdd yn defnyddio'r sgôr effaith economaidd yn y tabl isod ac yn cyfuno hyn â'r sgôr ar gyfer Gwerth Cymdeithasol, sy'n seiliedig ar nifer y canlyniadau y mae'r prosiect yn debygol o'u cyflawni.

Mae TOMs Cenedlaethol Cymru (Themâu, Canlyniadau, mesurau'r) wedi'i gynllunio i ganiatáu i sefydliadau asesu cyfraniad eu gwerth cymdeithasol i 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' yn nhermau buddion anariannol a'r gwerth ariannol ychwanegol a grëir. Mae yna 35 canlyniad i gyd, gyda phob un yn gyson ag un o saith thema 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Yn y cam hwn, ni allwn ddefnyddio'r gwerth procsi i gyfrifo'r gwerth ariannol ychwanegol a grëwyd – ond dylid gwneud hyn yn ystod cam dichonoldeb llawn diweddarach, a hynny fesul achos.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Amcanion

- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel eyd-eang
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

| Sgôr Coch/ Oren/Gwyrdd | EE Isel (1) (sgôr < = 5) | EE Canolig (2) (sgôr 6-10) | EE Uchel (3) (sgôr 11-15) |
|---|---|---|---|
| GC Isel (1) = Yn bodloni 3 neu lai o ganlyniadau'r TOMs Cenedlaethol | 1 | 2 | 3 |
| GC Canolig (2) = Yn bodloni 4-6 o ganlyniadau'r TOMs Cenedlaethol | 2 | 4 | 6 |
| GC Uchel (3) = Yn bodloni 7 neu fwy o ganlyniadau'r TOMs Cenedlaethol | 3 | 6 | 9 |

| Dangosydd Effaith Economaidd (EE) | EE Isel (Sgôr 1) | EE Canolig (Sgôr 2) | EE Canolig (Sgôr 2) |
|---|---|---|---|
| Creu swyddi | Dim i minimol | Peth | Sylweddol |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | Dim i minimol | Peth | Sylweddol |
| Cynnydd yn yr amser y maent yn aros | Annhebygol | Peth | Sylweddol |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol | Annhebygol | Peth | Sylweddol |
| Cynyddu gwerth y tir | Annhebygol | Peth | Sylweddol |
| Sgôr uchaf posibl | 5 | 10 | 15 |




Stryd y Dollborth

Yn cael ei phoblogi â thai, siopau cyfleustra a siopau cludfwyd.


© Rural Office 2023

## 4.5 Cynllun adfywio


Mae cynllun adfywio Aberystwyth yn nodi nifer o brosiectau i wella asedau cyfredol a chreu cyfleoedd ar gyfer tref lewyrchus y gall pobl fyw a gweithio ynddi. Mae set o themâu yn cysylltu ysgogwyr economaidd Ceredigion, ynghyd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol eraill.

## 4.6 Ymyraethau targededig

Mae pob cynnig yn cael ei ddosbarthu'n ymyrraeth dargededig allweddol neu'n brosiect ategol. Mae'r ymagwedd hon at adfywio yn golygu bod naill ai ymyraethau allweddol targededig yn gweithredu fel catalyddion i gyfres o brosiectau llai eraill ddigwydd, neu fod prosiectau ategol yn galluogi cynigion trawsffurfiol i ddod i'r amlwg.

Swm o rannau yw'r cynllun, sy'n cynrychioli gweledigaeth gyffredinol ar gyfer Aberystwyth. Mae'r cynigion yn cynnwys enillion cyflym, syniadau arbrofol tymor canolig, a datblygiadau tymor hwy, a fydd dan arweiniad naill ai'r cyngor neu'r gymuned:

1. Pyrth a mynedfeydd
2. Llwybrau canol y dref
3. Yr hen Swyddfa'r Post
4. Yr hen ddepo bysiau
5. Yr harbwr a'r promenâd
6. Pontydd
7. Partneriaethau addysgol
8. Treftadaeth
9. Ffordd Alexandra
10. Atyniad y glannau
11. Digwyddiadau a rhaglennu






© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Allweddol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1. Pyrth a Mynedfeydd | Adfer rhodfeydd a mannau cyrraedd i ganol y dref. Nodi cyfleoedd ar gyfer safleoedd sy'n caniatáu i hyn ddigwydd. Un safle pwysig i ymchwilio iddo yw'r hen ddepo bysiau (gweler rhif. 4) yng Nghoedlan y Parc.<br><br>Gwelliannau o ran parcio, parciau, cyfleusterau hamdden a seilwaith gwyrdd wrth ddynesu at ganol y dref ar hyd pedwar llwybr allweddol – sef Ffordd Penparcau, Boulevard St. Brieuc, Ffordd Llanbadarn, a Ffordd Penglais. Ymgorffori gwasanaethau parcio a theithio cyfredol ac arfaethedig, ynghyd â dynodi llwybrau i gerbydau a cherddwyr. Byddai hyn yn gyson â'r cynllun Teithio Llesol lleol, taith gerdded gylchol Aberystwyth a'r llwybr natur, yn ogystal â'r coridorau gwyrdd yng nghanol y dref a gynigir yn y Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd.<br><br>Gwelliannau i fynd i'r afael â'r llif traffig a'r tagfeydd yng nghanol y dref. Archwilio'r potensial i ailgyfeirio prif ffordd y gefnffordd i leddfu pwysau'r A487 ar hyd Rhodfa'r Gogledd a Ffordd Alexandra. Sicrhau mwy o flaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref i gynyddu amser aros a phrofiad ymwelwyr. | Yr Amgylchedd<br>Teithio a Thrafnidiaeth<br>Creu Lleoedd<br>Llesiant | Trawsffurfiol – cyfres o brosiectau cyfalaf a rhaglenni newid seilwaith ac iddynt y potensial ar gyfer twf economaidd.<br><br>Yn mynd i'r afael â newidiadau yn arferion defnyddwyr i gefnogi siopau canol y dref a busnesau hamdden, a lleddfu'r pwysau/ tagfeydd presennol. | Gwella'r seilwaith, y beirianneg sifil a'r dirwedd.<br><br>Prosiect(au) dichonoldeb priffyrdd.<br><br>Gwelliannau i'r dirwedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd.<br><br>Gwelliannau i'r ddarpariaeth Teithio Llesol. | Gwella mynediad at wasanaethau lleol, amwynderau ac ardaloedd preswyl.<br><br>Annog parcio wrth ddynesu at ganol y dref.<br><br>Sefydlu canol y dref yn gyrchfan.<br><br>Cynyddu nifer yr ymwelwyr, yr amser y maent yn aros a'r hyn y maent yn ei wario mewn siopau lleol.<br><br>Gwella cysylltiadau rhwng asedau presennol ar dir y cyhoedd.<br><br>Incwm o barcio ceir.<br><br>Incwm o ddigwyddiadau a gwyliau proffil uchel. | £18.6 miliwn<br>• Gwelliannau i'r priffyrdd ac arwyddion, a lwfansau ar gyfer tirweddu i adfer rhodfeydd a mannau cyrraedd.<br>• Parc ieuenctid newydd, dodrefn awyr agored, plannu, arwyddion, a throedffordd teithio llesol i wella parciau a chyfleusterau hamdden.<br>• Ailgyfeirio'r brif ffordd, sy'n cynnwys adeiladu ffordd newydd a gwneud gwelliannau i'r priffyrdd.<br>• Gwelliannau i gyfleusterau parcio, a lwfansau ar gyfer dynodi llwybrau cerbydau a cherddwyr.<br>• Seilwaith gwyrdd, coridorau gwyrdd, a theithio llesol. | Hirdymor | 10 | Uchel | ● | ✓ | | ✓ | ✓ | Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur<br><br>Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru<br><br>Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Econo-maidd | Gwerth Cymde-ithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Allweddol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2. Llwybrau Canol y Dref | Gwelliannau i bwyntiau echel craidd yng nghanol y dref, gan gysylltu'r gweithgarwch masnachol ar hyd y Stryd Fawr, Heol y Wig a Ffordd y Môr. Gwella'r parth trefol o amgylch y farchnad yn yr hen ran a chyflwyno pocedi o ofodau dinesig ar hyd y Stryd Fawr.<br><br>Archwilio opsiynau ar gyfer rhoi blaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref a llwybrau allweddol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod o brofi ac ymgynghori i sicrhau bod cynllun effeithiol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y parth trefol ar y cyd â busnesau a phreswylwyr.<br><br>Cadw ac adnewyddu blaenau siopau gwreiddiol a nodweddion pensaernïol eraill. Cyflwyno rhaglen fuddsoddi ar gyfer blaenau siopau traddodiadol sydd wrth graidd yr ardal fasnachol wreiddiol – y Stryd Fawr, Heol y Bont a Heol y Wig – sydd â'u gwreiddiau yn y cyfnod canoloesol.<br><br>Gwelliannau i'r ddarpariaeth manwerthu ac addasu unedau cyfredol fel eu bod yn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol i breswylwyr a thwristiaid sy'n ymweld â'r dref.<br><br>Mae llwybrau canol y dref yn cysylltu â'r coridorau gwyrdd arfaethedig a gyflwynir yn y rhwydwaith GBI, ac yn canolbwyntio ar (1) Yr orsaf i'r glannau, a (2) Rhodfa'r Gogledd i Draeth y De. | Cymeriad<br>Y Stryd Fawr<br>Creu Lleoedd<br>Teithio a Thrafnidiaeth | Sylfaenol – galluogi gweithgarwch economaidd a gwella cymeriad y dref. | Gwella'r seilwaith, y beirianneg sifil a'r dirwedd.<br><br>Prosiect(au) dichonoldeb priffyrdd.<br><br>Gwelliannau i'r dirwedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd. | Cynyddu nifer yr ymwelwyr ar y Stryd Fawr, yr amser y maent yn aros a'r hyn y maent yn ei wario mewn siopau lleol.<br><br>Denu busnesau newydd ac arallgyfeirio/a gwella'r arlwy manwerthu.<br><br>Incwm rhenti o unedau masnachol graddfa fach. | £8.6 miliwn<br><br>• Ad-drefnu'r ffyrdd preswyl mewnol, palmentydd newydd i gerddwyr, a dodrefn stryd newydd i wella'r pwyntiau echel craidd.<br>• Lwfans ar gyfer gwella tir trefol, ynghyd â gwaith tirweddu yn achos marchnad y dref, a dodrefn stryd.<br>• Lwfans ar gyfer gwelliannau i flaenau strydoedd ac adfer y ffasadau manwerthu.<br>• Ad-drefnu adeiladau manwerthu ac unedau masnachol. | Tymor canolig | 12 | Uchel | ● | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru<br><br>Gellid ystyried y prosiect hwn yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol.<br><br>Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Prif Grantiau |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Allweddol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3. Yr hen Swyddfa'r Post | Datblygu'r hen Swyddfa'r Post a'r swyddfeydd didoli yn adeiladau masnachol ar gyfer cymysgedd o siopau, busnesau bach, gofodau swyddfeydd ac egin fusnesau. Gallai hyn fod ar ffurf hyb creadigol neu ddiwylliannol a fyddai'n cysylltu set o wasanaethau manwerthu, masnachol a phroffesiynol.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar brosiectau diweddar Menter Antur Cymru, gan gynnwys siopau masnachu prawf dros dro a rhaglenni sgiliau.<br><br>Mae'r safle mewn man strategol yng nghanol y dref, ac yn un o'r ardaloedd allweddol o ran lle bo ehangu'r arlwy masnachol yn bosibl. Gallai cynlluniau ddatblygu cyswllt rhwng Stryd y Ffynnon Haearn a'r Stryd Fawr, gan hefyd fanteisio ar leoliad allweddol yr adeilad a'i berthynas â llwybrau canol y dref ar hyd y Stryd Fawr a Choedlan y Parc. | Busnes<br>Cymuned<br>Y Stryd Fawr<br>Creu Lleoedd<br>Sgiliau | Sylfaenol – yn galluogi gweithgarwch economaidd a datblygiad busnesau.<br><br>Y potensial ar gyfer unedau masnachol graddfa fach uwchben safleoedd manwerthu.<br><br>Cyfleoedd ar gyfer creu swyddi, menter a busnes. | Gofodau hyblyg i fusnesau.<br><br>Marchnadoedd a siopau masnachu prawf dros dro.<br><br>Adnewyddu ac ad-drefnu'r adeilad presennol.<br><br>Cymorth prosiectau ar gyfer gwelliannau i flaenau'r strydoedd a'r Stryd Fawr. | Cymorth ar gyfer egin fusnesau bach<br><br>Cyfleoedd ar gyfer hunangyflogaeth, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.<br><br>Incwm rhenti o unedau masnachol graddfa fach. | £1.9 miliwn<br><br>• Ychydig o waith dymchwel yn achos yr adeilad, ynghyd ag adnewyddu'r adeilad presennol a gosod siopau dros dro parhaol ynddo | Tymor canolig | 12 | Canolig | ● | | ✓ | ✓ | ✓ | Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru os bydd hyn ar ffurf partneriaeth<br><br>Gellid ystyried y prosiect hwn yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol. |


© Rural Office 2023



| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Ategol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4. Yr Hen Ddepo Bysiau | Prosiect hyrwyddo cymunedol i wella llesiant a darparu bioamrywiaeth.<br><br>Datblygu'r safle i gael mwy o swyddogaeth gymdeithasol a dinesig, gan sefydlu marchnad awyr agored neu dros dro fywiog a chanddi'r gallu i gynnal digwyddiadau a gwyliau cymunedol.<br><br>Gallai cynlluniau ddefnyddio dull seiliedig ar y dirwedd sy'n cysylltu llwybrau Teithio Llesol ac yn meithrin perthynas ag Afon Rheidol, Clwb Pêl-droed Aberystwyth, Rheilffordd Cwm Rheidol, a Rhodfa Plas Crug. Gellid dylunio tirweddau caled a meddal i wella'r amddiffynfeydd cyfredol rhag llifogydd ac i liniaru risgiau.<br><br>Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn a'r prosiect 'Pyrth a Mynedfeydd' (gweler rhif 1) a'r newidiadau trwm i'r seilwaith.<br><br>Mae yma gyfle i gynnal astudiaeth dichonoldeb ac uwchgynllun ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn yr hen ddepo bysiau a safleoedd cyfagos. Gallai hyn ymgorffori llety preswyl (yn amodol ar liniaru llifogydd a chyfyngiadau cynllunio, a chan roi ystyriaeth i gyngor TAN15). | Teithio Llesol<br>Busnes<br>Cymuned<br>Yr Amgylchedd<br>Tirwedd<br>Creu Lleoedd<br>Sgiliau<br>Teithio a Thrafnidiaeth<br>Llesiant | Trawsffurfiol – prosiect a rhaglen cyfalaf sylweddol, gyda'r potensial ar gyfer gwerth cymdeithasol sylweddol, sy'n cynnwys ymateb i'r peryglon llifogydd cyfredol. | Gwella'r seilwaith, y beirianneg sifil a'r dirwedd<br><br>Sefydlu lleoliadau awyr agored ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau tymhorol<br><br>Gwelliannau i'r dirwedd sy'n gysylltiedig ag Afon Rheidol<br><br>Sefydlu porth i mewn i'r dref a darparu seilwaith ymwelwyr tymhorol | Incwm o ddigwyddiadau a gweithgareddau tymhorol<br><br>Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r gwariant eilaidd<br><br>Incwm o barcio ceir a ffioedd lleol | £3.0 miliwn<br>• Lleoliadau awyr agored a gweithgareddau tymhorol, gan gynnwys arwyneb solet newydd, lwfans ar gyfer siopau dros dro, a dodrefn awyr agored<br>• Y dirwedd i gysylltu â theithio llesol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd. Hyn i gynnwys lwfans ar gyfer tirweddu meddal a chaled, a rhwystrau amddiffyn rhag llifogydd | Tymor canolig | 11 | Canolig | ● | | ✓ | ✓ | ✓ | Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur<br><br>Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru<br><br>Grantiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd Llywodraeth Cymru<br><br>Gellid ystyried y prosiect hwn yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol.<br><br>Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Pobl a Lleoedd |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Ategol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5. Yr Harbwr a'r Promenâd | Gwelliannau i'r harbwr a'r promenâd – a fydd yn ymgorffori arlwy bwyd, diod a hamdden o safon, a hwnnw'n cysylltu Marina Aberystwyth â Thraeth y De. Byddai hyn yn datblygu ac yn ehangu'r arlwy i dwristiaid ac ymwelwyr ar hyd Rhodfa'r Môr, Rhodfa Newydd, Ffordd y Môr a'r Lanfa.<br><br>Adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar a phrosiectau eraill ar hyd y promenâd, gan gynnwys prosiect yr Hen Goleg. Byddai'r prosiect yn cael ei weithredu ochr yn ochr â phrosiectau Teithio Llesol arfaethedig ar hyd y promenâd, a'r bont arfaethedig yn yr harbwr (gweler rhif 6).<br><br>Trwy ddefnyddio datblygiad presennol yr Hen Goleg yn gatalydd, mae yna gyfle ar gael i drawsnewid a defnyddio asedau eraill sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys addasu adeiladau gwag ar hyd y promenâd (megis Gwesty'r Belle Vue Royal).<br><br>Ystyried cynllun i adnewyddu ffasadau adeiladau presennol ac adfer nodweddion pensaernïol ar hyd glan y môr. | Teithio Llesol<br>Busnes<br>Creu Lleoedd<br>Twristiaeth | Sylfaenol – galluogi gweithgarwch economaidd a gwella cymeriad y dref<br><br>Galluogi cysylltedd a gwell amwynder<br><br>Sefydlu cyfleoedd busnes a buddsoddi newydd | Gwelliannau i'r dirwedd sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad arfaethedig mewn teithio llesol ac yn y promenâd<br><br>Adnewyddu a gwella adeiladau a safleoedd presennol<br><br>Cymorth prosiectau ar gyfer gwelliannau i lan y môr | Gwella'r harbwr a'r promenâd i fod yn gyrchfan a phrofiad i ymwelwyr/ breswylwyr<br><br>Gwella cysylltiadau rhwng busnesau a'r Stryd Fawr<br><br>Denu busnesau newydd ac arallgyfeirio/a gwella'r arlwy masnachol<br><br>Catalydd ar gyfer buddsoddiad hirdymor a chadwraeth safleoedd strategol<br><br>Incwm rhenti o unedau a safleoedd masnachol<br><br>Incwm o ddigwyddiadau tymhorol<br><br>Ffioedd sy'n gysylltiedig â Chynllunio, a106 a chytundebau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer seilwaith ategol a gwasanaethau sylfaenol | £430 mil<br><br>• Lwfans ar gyfer astudiaeth dichonoldeb | Tymor canolig | 10 | Canolig | ● | | ✓ | | ✓ | Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru<br><br>Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach Llywodraeth Cymru |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Econo-maidd | Gwerth Cymde-ithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Ategol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6. Pontydd | Pont newydd i Farina Aberystwyth, yn ogystal â phont gerllaw Heol y Bont, i annog cerddwyr i mewn i'r dref ac i fyny at y promenâd (gweler rhif 5). Byddai hyn yn cysylltu Traeth Tan-y-bwlch, Penparcau ac aneddiadau i'r de o'r afon. Y nod fyddai annog ymwelwyr i ddefnyddio'r dref yn gyrchfan i archwilio'r dirwedd ehangach ac Afon Rheidol. | Teithio Llesol<br>Yr Amgylchedd<br>Creu Lleoedd<br>Twristiaeth | Sylfaenol – galluogi cysylltedd a gwell arlwy i dwristiaid | Gwella'r seilwaith, y beirianneg sifil a'r dirwedd | Gwella mynediad i amwynder yr harbwr a gweithgarwch hamdden<br><br>Incwm o barcio ceir a ffioedd lleol<br><br>Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a gwariant eilaidd wrth i broffil y gyrchfan ddatblygu | £5.0 miliwn<br>• Pont newydd i Farina Aberystwyth<br>• Pont newydd gerllaw Heol y Bont | Hirdymor | 7 | Canolig | ● | ✓ | | ✓ | ✓ | Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru<br><br>Cronfa'r Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru<br><br>Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach Llywodraeth Cymru |
| 7. Partneriaethau Addysgol a Diwylliannol | Meithrin y perthnasoedd presennol â Phrifysgol Aberystwyth, busnesau, a sefydliadau trydydd sector i ddefnyddio asedau presennol ac addasu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr neu'r promenâd.<br><br>Darparu cymorth i fentrau sy'n gyson â rhaglenni sgiliau a chyfleoedd dysgu galwedigaethol.<br><br>Mae hyn yn cynnwys cymorth i brosiectau diwylliannol sy'n dathlu llenyddiaeth Gymraeg, ac ymdrechion i hybu'r Gymraeg.<br><br>Cymell gweithio gyda phartneriaid dinesig i wneud y defnydd gorau o asedau presennol a'r gwaith o ailddatblygu adeiladau canol tref, gan ryngweithio â sefydliadau, busnesau a mudiadau cymunedol lleol – gan gynnwys hen adeilad BT ac adeiladau gwag eraill. | Busnes<br>Cymuned<br>Y Stryd Fawr<br>Dysgu<br>Sgiliau | Trawsffurfiol – rhaglen a phrosiect cyfalaf sylweddol sydd â'r potensial ar gyfer gwerth cymdeithasol sylweddol, ac sy'n ymateb i'r agenda dysgu a sgiliau<br><br>Gweithio gyda phartneriaid dinesig allweddol i ddatblygu rhaglen ailddatblygu ac ailddefnyddio | Adnewyddu ac ad-drefnu unedau masnachol<br><br>Cymorth prosiectau ar gyfer gwelliannau i ffryntiadau'r strydoedd<br><br>Y potensial yn y tymor hwy ar gyfer gwaith ailddatblygu yn achos safleoedd ac adeiladau gwag strategol allweddol | Cyswllt â chynigion diwylliannol a rhaglenni treftadaeth genedlaethol<br><br>Gwaith partneriaeth a ariennir sy'n rhan o fodel cydweithredol â sefydliadau a rhanddeiliaid lleol<br><br>Incwm o ddigwyddiadau a rhaglenni tymhorol<br><br>Rhent o unedau busnes, swyddfeydd a gweithdai | £310 mil<br>• Lwfans ar gyfer astudiaeth dichonoldeb | Hirdymor | 7 | Canolig | ● | | ✓ | ✓ | ✓ | Dim ffynonellau cyllid allanol amlwg |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Ategol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8. Treftadaeth | Buddsoddi mewn treftadaeth ac adeiladau rhestredig, gan gynnwys cynllun i gynnal a chadw hunaniaeth Hen Dref Aberystwyth. Cymorth targededig ar gyfer addasiadau neu waith adfer yn achos Maes Iago, y farchnad, blaenau siopau a chynllun ffasadau masnachol – sy'n rhoi ystyriaeth i ddiogelu a gwella cymeriad y dref (ac sy'n cael ei lywio gan offeryn dylunio neu ganllaw cynllunio penodol sy'n gysylltiedig â Canllaw Dylunio Blaenau Siopau a Ffasadau Masnachol Aberystwyth).<br><br>Gwelliannau i'r Stryd Fawr a Maes Iago sy'n profi blaenoriaeth i gerddwyr a chysylltiadau â llwybrau eraill canol y dref (gweler rhif 2) a'r hen Swyddfa'r Post (gweler rhif 3). | Busnes<br>Cymeriad<br>Y Stryd Fawr<br>Creu Lleoedd<br>Twristiaeth | Sylfaenol – galluogi gweithgarwch economaidd a gwella cymeriad y dref | Adnewyddu ac ad-drefnu unedau masnachol<br><br>Cymorth prosiectau i wella blaenau strydoedd, i adfer, ac i ddiogelu treftadaeth<br><br>Diweddaru'r canllaw dylunio sy'n gysylltiedig â'r gwerthusiad o'r ardal gadwraeth | Cynyddu nifer yr ymwelwyr ar y Stryd Fawr, yr amser y maent yn aros a'r hyn y maent yn ei wario mewn siopau lleol<br><br>Denu busnesau newydd ac arallgyfeirio/a gwella'r arlwy manwerthu<br><br>Incwm rhenti o unedau masnachol graddfa fach | £3.8 miliwn<br>• Cadw adeiladau rhestredig presennol, gan gynnwys cynnal a diogelu'r ffasadau<br>• Gwella palmentydd i gerddwyr, dodrefn stryd, lleoliadau stondinau a blaenau siopau<br>• Adnewyddu ac ad-drefnu unedau masnachol | Byrdymor | 10 | Canolig | 🟠 | | | | ✓ | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Prif Grantiau<br><br>Cronfa Treftadaeth Bensaernïol os mewn partneriaeth â sefydliad nid-er-elw |
| 9. Ffordd Alexandra | Gwelliannau o ran creu lleoedd, a datblygu strategaeth tirwedd drefol benodol sy'n mynd i'r afael â'r ymdeimlad o gyrraedd a dyluniad Ffordd Alexandra.<br><br>Y gwelliannau i gynnwys y flaenoriaeth i gerddwyr ar gyffyrdd allweddol, y berthynas â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, ac adeiladau o bwys a/neu werth treftadaeth (megis Gwesty'r Cambrian).<br><br>Dylai hyn gysylltu â'r ardal fwyd a'r gwaith datblygu diweddar yn achos yr hen Ysgol Gymraeg. | Busnes<br>Cymeriad<br>Cyrchfan<br>Creu Lleoedd<br>Teithio a Thrafnidiaeth | Sylfaenol – galluogi gweithgarwch economaidd a gwella cymeriad y dref<br><br>Mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus craidd a gwella'r ymdeimlad o gyrraedd y dref | Gwella'r seilwaith, y beirianneg sifil a'r dirwedd<br><br>Adnewyddu ac ad-drefnu unedau masnachol<br><br>Cymorth prosiectau ar gyfer gwelliannau i ffryntiadau'r strydoedd | Gwell 'croeso' i'r dref o'r orsaf fysiau a'r orsaf drenau<br><br>Cynyddu nifer yr ymwelwyr ar y Stryd Fawr, yr amser y maent yn aros a'r hyn y maent yn ei wario mewn siopau lleol<br><br>Gwella cysylltiadau rhwng asedau presennol ar dir y cyhoedd<br><br>Denu busnesau newydd ac arallgyfeirio/a gwella'r arlwy manwerthu | £1.6 miliwn<br>• Adnewyddu ac ad-drefnu unedau masnachol<br>• Gwelliannau i'r dirwedd<br>• Blaenau siopau newydd | Byrdymor | 10 | Isel | 🔴 | ✓ | | | ✓ | Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru |


© Rural Office 2023

| | Crynodeb | Themâu | Trawsffurfiol Sylfaenol | Cyfalaf | Refeniw | Tasgau a Chostau Allweddol | Amser | Effaith Economaidd | Gwerth Cymdeithasol | Sgôr Coch/ Oren/ Gwyrdd | Cysylltedd | Menter | Pobl | Lle | Polisi Perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Ategol** | | | | | | | | | | | | | | | |
| 10. Waterfront Attraction | Adolygu holl atyniadau'r glannau ac archwilio'r opsiwn o arlwy hamdden neu sba yn rhan o gynllun traeth ymdrochi neu bwll llanw ar gyfer nofio awyr agored yn y dyfodol, a hynny gan adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar a phrosiectau eraill ar hyd y promenâd, yn cynnwys yr Hen Goleg (gweler rhif 5).<br><br>Archwilio dichonoldeb ardaloedd nofio dynodedig a chanolfan ar gyfer nofio dŵr agored. | Busnes<br>Cymeriad<br>Cyrchfan<br>Iechyd<br>Twristiaeth<br>Creu Lleoedd | Trawsffurfiol – prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol ar gyfer datblygu glan y môr i fod yn gyrchfan, ac sy'n galluogi gweithgarwch economaidd ac yn cyfoethogi cymeriad y dref | Sefydlu seilwaith ac atyniad ymwelwyr tymhorol | Cynyddu'r refeniw o gyfleusterau y glannau<br><br>Llogi'r lleoliad ar gyfer gweithgareddau hamdden a busnes<br><br>Incwm o weithgarwch tymhorol<br><br>Ffioedd sy'n gysylltiedig â Chynllunio, a106 a chytundebau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer seilwaith ategol a gwasanaethau sylfaenol | £3.1 miliwn<br><br>• Cyfleuster hamdden newydd<br>• Pwll tonnau llanw awyr agored<br>• Uned sba allanol fach<br>• Cyfleusterau bach ar y glannau | Hirdymor | 8 | Isel | ● | | ✓ | ✓ | ✓ | Llywodraeth Cymru/Croeso Cymru: Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru<br><br>Gellid ystyried y prosiect hwn yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol. |
| 11. Events & Programming | Byddai dull cydgysylltiedig o raglennu digwyddiadau, gweithgareddau a gwyliau ar hyd a lled y dref yn helpu i broffilio a blaenoriaethu buddsoddiad yn y cyfleusterau y mae mwyaf eu hangen.<br>Dylid cysylltu hyn ag ymgyrch gwybodaeth effeithiol i dwristiaid, ac amserlen neu ddyddiadur tref ffynhonnell agored.<br><br>Lwfans ar gyfer arddangosiadau digidol ac arwyddion ffisegol eraill sy'n cyd-fynd â gwelliannau i ganol y dref (gweler rhif 2). Mae'n bosibl y gallai partneriaid a rhanddeiliaid gydgysylltu hyn yn rhan o strategaeth farchnata a chyfathrebu ehangach. | Busnes<br>Cyrchfan<br>Y Stryd Fawr<br>Creu Lleoedd<br>Teithio a Thrafnidiaeth | Sylfaenol – galluogi gweithgarwch economaidd a darparu gwybodaeth | Sefydlu hysbyseb eglur ar gyfer dynodi llwybrau, trosglwyddo gwybodaeth, a thargedu | Gwella proffil y dref ac ymwybyddiaeth pobl o weithgareddau/ ddigwyddiadau<br><br>Gwella cysylltiadau a pherthnasoedd ar hyd a lled y dref | £940 mil<br><br>• Dynodi llwybrau, arddangosfeydd digidol, a byrddau hysbysebu | Byrdymor | 8 | Isel | ● | | ✓ | ✓ | ✓ | Dim ffynonellau cyllid allanol amlwg |


© Rural Office 2023



5.1 Cynllun adfywio allweddol

Mae'r cynllun adfywio yn nodi tri phrosiect targed allweddol i fod yn gatalydd ar gyfer newid. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

1. Pyrth a mynedfeydd
2. Llwybrau canol y dref
3. Yr hen Swyddfa'r Post

Archwilir pob un o'r prosiectau allweddol hyn yn fanylach o ran y posibilrwydd o'u gwireddu, a'u heffaith.



1. Pyrth a mynedfeydd

Adfer rhodfeydd a mannau cyrraedd i ganol y dref. Nodi cyfleoedd ar gyfer safleoedd a fyddai'n caniatáu i hyn gael ei wireddu. Un safle pwysig i ymchwilio iddo yw'r hen ddepo bysiau yng Nghoedlan y Parc.

Gwelliannau i gyfleusterau parcio, parciau, cyfleusterau hamdden a seilwaith gwyrdd wrth ddynesu at ganol y dref ar hyd pedwar llwybr allweddol – yn cynnwys Ffordd Penparcau, Boulevard St. Brieuc, Ffordd Llanbadarn, a Ffordd Penglais. Ymgorffori'r gwasanaethau parcio a theithio cyfredol a'r rhai arfaethedig, gan ddynodi llwybrau i gerbydau a cherddwyr. Byddai hyn yn gyson â'r cynllun Teithio Llesol lleol, taith gerdded gylchol Aberystwyth a'r llwybr natur, yn ogystal â'r coridorau gwyrdd yng nghanol y dref a gynigir yn y Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd.

Gwelliannau i fynd i'r afael â'r llif traffig a'r tagfeydd yng nghanol y dref. Archwilio'r potensial i ailgyfeirio'r brif gefnffordd i leddfu pwysau'r A487 ar hyd Rhodfa'r Gogledd a Ffordd Alexandra. Sicrhau mwy o flaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref i gynyddu amser aros a phrofiad ymwelwyr.



2. Llwybrau canol y dref

Gwelliannau i fannau echel craidd yng nghanol y dref, gan gysylltu gweithgarwch masnachol ar hyd y Stryd Fawr, Heol y Wig, a Ffordd y Môr. Gwella'r parth trefol o amgylch y farchnad yn yr hen ran a chyflwyno pocedi o ofodau dinesig ar hyd y Stryd Fawr.

Archwilio opsiynau ar gyfer rhoi blaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref a llwybrau allweddol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod o brofi ac ymgynghori i sicrhau bod cynllun effeithiol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y parth trefol ar y cyd â busnesau a phreswylwyr.

Cadw ac adnewyddu blaenau siopau gwreiddiol a nodweddion pensaernïol eraill. Cyflwyno rhaglen fuddsoddi ar gyfer blaenau siopau traddodiadol sydd wrth graidd yr ardal fasnachol wreiddiol – y Stryd Fawr, Heol y Bont a Heol y Wig – sydd â'u gwreiddiau yn y cyfnod canoloesol.

Gwelliannau i'r ddarpariaeth manwerthu ac addasu unedau cyfredol fel eu bod yn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol i breswylwyr a thwristiaid sy'n ymweld â'r dref.

Mae llwybrau canol y dref yn cysylltu â'r coridorau gwyrdd arfaethedig a gyflwynir yn rhwydwaith y Seilwaith Gwyrdd a Glas.




3. Yr hen Swyddfa'r Post

Datblygu'r hen Swyddfa'r Post a'r swyddfeydd didoli yn adeiladau masnachol ar gyfer cymysgedd o siopau, busnesau bach, gofodau swyddfeydd ac egin fusnesau. Gallai hyn fod ar ffurf hyb creadigol neu ddiwylliannol a fyddai'n cysylltu set o wasanaethau manwerthu, masnachol a phroffesiynol.

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar brosiectau diweddar Menter Antur Cymru, gan gynnwys siopau masnachu prawf dros dro a rhaglenni sgiliau.

Mae'r safle mewn man strategol yng nghanol y dref, ac yn un o'r ardaloedd allweddol o ran lle bo ehangu'r arlwy masnachol yn bosibl. Gallai cynlluniau ddatblygu cyswllt rhwng Stryd y Ffynnon Haearn a'r Stryd Fawr, gan fanteisio ar leoliad allweddol yr adeilad a'i berthynas â llwybrau canol y dref ar hyd y Stryd Fawr a Choedlan y Parc.


© Rural Office 2023

Aberystwyth

Man lle mae busnesau’n falch o fod yn lleol.



## 5.2 Prosiect allweddol: Pyrth a Mynedfeydd

- Yr Amgylchedd
- Teithio a Thrafnidiaeth
- Creu Lleoedd
- Llesiant

### 5.2.1 Gweledigaeth

Sefydlu canol y dref yn gyrchfan trwy wella llwybrau mynediad allweddol a chysylltiadau rhwng asedau cyfredol i wella profiad preswylwyr ac ymwelwyr.

### 5.2.2 Disgrifiad

Mae gan y llwybrau mynediad cyfredol, yn enwedig mynediad i gerbydau, y potensial i wella a hyrwyddo mannau cyrraedd. Mae'r safleoedd gwag neu'r safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn darparu cyfle i hyn ddigwydd, yn enwedig yr hen ddepo bysiau yng Nghoedlan y Parc (gweler prosiect ategol rhif 4 yn y tabl). Mae'r prif lwybrau hyn i ganol y dref yn darparu gwelliannau i brofiad ymwelwyr, gan adfer rhodfeydd sy'n gyfoethog o ran eu tirwedd ac a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.

Mae tref Aberystwyth wedi'i lleoli ar nifer o lwybrau trafnidiaeth pwysig, yn cynnwys cefnffyrdd strategol bwysig yr A44 a'r A487. Er bod symudiad twristiaid, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig nwyddau yn bwysig yn Aberystwyth a hithau'n ganolbwynt rhanbarthol, mae'n ofynnol cynnal adolygiad ledled y dref o'r mynediad i'r priffyrdd, a hynny gan roi pwyslais ar sefydlu ymdeimlad cydlynol o le a chysylltiadau eglur o un rhan o'r dref i'r llall. Bydd ffocws ar Seilwaith Gwyrdd yn darparu gwelliannau helaeth yn ddiweddarach i lesiant a chreu lleoedd, ac yn cyd-fynd â chynlluniau a pholisïau eraill.

O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae Aberystwyth wedi cael ei dynodi'n Dref Teithio Llesol ac wedi elwa o welliannau diweddar i lwybrau teithio llesol, a hynny ar ffurf llwybrau a rennir a llwybrau amlddefnydd ar gyfer beicio a cherdded. Mae gwelliannau pellach i drafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys y cyfnewidfeydd rheilffordd a bysiau, yn gwneud Aberystwyth yn lleoliad delfrydol i fwyhau manteision opsiynau teithio cynaliadwy.

Dylai'r prosiect hwn gynnwys gwelliannau i gyfleusterau parcio, mannau gwyrdd, cyfleusterau hamdden a seilwaith gwyrdd ar hyd pedwar llwybr allweddol i ganol y dref – yn cynnwys Ffordd Penparcau, Boulevard St. Brieuc, Ffordd Llanbadarn, a Ffordd Penglais. Mae yna botensial i ymgorffori gwasanaethau parcio a theithio cyfredol ac arfaethedig, a hynny gan ddynodi llwybrau eglur i gerbydau a cherddwyr. Byddai hyn yn gyson â'r cynllun Teithio Llesol lleol, taith gerdded gylchol Aberystwyth a'r llwybr natur, yn ogystal â'r coridorau gwyrdd yng nghanol y dref a gynigir yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd.

Byddai ailgyfeirio'r brif gefnffordd yn lliniaru pwysau cyfredol yr A487 ar hyd Rhodfa'r Gogledd a Ffordd Alexandra. Gellid ymchwilio ymhellach i welliannau i fynd i'r afael â'r llif traffig a thagfeydd fel bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei roi i gerddwyr yng nghanol y dref, elfen a fyddai'n helpu i gynyddu amser aros a phrofiad ymwelwyr.

### 5.2.3 Llinell amser

Mae'r cynnig hwn yn cwmpasu cyfres o newidiadau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chynlluniau a pholisïau eraill. Bydd angen amser i gynllunio ac ymgorffori'r newidiadau hyn, ond dylai'r potensial adfywio gael ei gysylltu yn y bôn â gweledigaethau creu lleoedd, llesiant a thrafnidiaeth gynaliadwy ehangach ar hyd a lled y dref.

### 5.2.4 Ymgysylltu

Yn ystod y cam cynllunio cychwynnol, dylid dod â nifer o randdeiliaid allweddol ynghyd, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd addysg, preswyl, busnes, manwerthu a hamdden, a dylid mynd ati yn ogystal i ymgysylltu â'r cyhoedd â'r gymuned, a hynny er mwyn rhoi llais a chyfle i ddefnyddwyr ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

### 5.2.5 Partneriaid

Byddai sefydlu deialog agored rhwng tirfeddianwyr preifat, rhanddeiliaid cymunedol lleol a'r awdurdod lleol yn sicrhau bod uwchgynllun a gweledigaeth sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall yn cael eu sefydlu. Bydd y cynllun hwn yn gofyn am gydweithrediad a chydweithio helaeth rhwng arbenigwyr priffyrdd a gwasanaethau amgylcheddol, ynghyd â mewnbwn parhaus gan Trafnidiaeth Cymru, National Rail, a sefydliadau cenedlaethol eraill.


1


2


3

Llwybrau mynediad allweddol

1. Yr orsaf drenau a'r gyfnewidfa bysiau, Ffordd Alexandra
2. Llwybr Beicio Rheidol
3. Ffordd Penglais, yr A487


© Rural Office 2023

5.2.6 Asesiad economaidd a chymdeithasol

Mewn perthynas ag effaith economaidd, mae'r prosiect Pyrth a Mynedfeydd wedi cael ei sgorio fel a ganlyn:

| Pyrth a Mynedfeydd | Gwerth EE |
|---|---|
| Creu swyddi | 1 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | 3 |
| Cynnydd yn yr amser aros | 3 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol | 2 |
| Cynyddu gwerth y tir | 1 |
| Cyfanswm | 10 |

Bydd gan y prosiect hwn beth potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr, ond gallai gynyddu'r amser aros yn sylweddol. Gallai wella gwerthoedd tir sydd ymhellach i ffwrdd o lan y môr trwy alluogi cyfleoedd hamdden a manwerthu yn agosach i'r dref. Mae gan y cynllun botensial uchel i wella mynediad i'r elfennau treftadaeth trwy gydol yr amser ac i ddathlu cymeriad y dref.


Mae'r gwaith yn debygol o gyflawni'r canlyniadau Gwerth Cymdeithasol canlynol:

- Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol ac MMBCh (Mentrau Micro, Bach a Chanolig)
- Cymuned iachach yn cael ei chreu
- Gwelliant yn llesiant staff
- Llygredd aer yn cael ei ostwng
- Allyriadau carbon yn cael eu gostwng
- Mannau gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu hamddiffyn a'u gwella
- Yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu


5.2.7 Cyllid a buddsoddiad

O ystyried mai prosiect seilwaith yw hwn, i raddau helaeth, sy'n cyflawni buddion eilaidd, bydd yn anodd nodi ystod eang o gyllidwyr. Mae'n debyg mai Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a Chronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru fydd yn ffurfio mwyafswm y cyllid sydd ar gael.


Mae yna rai elfennau mwy apelgar yn y prosiect a allai ddenu cymorth ar gyfer mynediad i fyd natur. Gallai ffynonellau cyllid posibl ar gyfer yr elfennau hyn gynnwys Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a gallai hefyd, o bosibl, fodloni amcanion prif raglen grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.




Llwybr cerdded 20 munud




Llwybrau mynediad



Darpariaeth parcio



© Rural Office 2023

5.2.8 Cynaliadwyedd a chydnerthedd

Mae'r prosiect trawsnewidiol hwn yn rhoi cyfle i ddatgloi datblygiadau allweddol eraill, ac mae iddo'r potensial i gefnogi'r economi leol a'r gymuned ehangach trwy gysylltu parthau ac asedau allweddol ar hyd a lled y dref.




Pyrth a llwybrau mynediad

Adfer rhodfeydd a mannau cyrraedd i ganol y dref.



© Rural Office 2023

Aberystwyth

Prifddinas ddiwylliannol Cymru.



## 5.3 Prosiect allweddol: Llwybrau canol y dref

- Cymeriad
- Y Stryd Fawr
- Creu Lleoedd
- Teithio a Thrafnidiaeth

### 5.3.1 Gweledigaeth

Gwella iechyd y cyhoedd, llesiant a'r economi trwy hyrwyddo pwyntiau echel craidd yng nghanol y dref.

### 5.3.2 Disgrifiad

Gan adeiladu ar y prosiect allweddol, Pyrth a Mynedfeydd, dylid gwneud gwelliannau i'r pwyntiau echel craidd yng nghanol y dref, a chysylltu gweithgarwch masnachol ar hyd y Stryd Fawr, Heol y Wig a Ffordd y Môr. Byddai gwelliannau i'r parth trefol o amgylch y farchnad yn yr hen ran, a chyflwyno pocedi o ofodau dinesig ar hyd y Stryd Fawr, yn cynorthwyo i sefydlu parthau cerddwyr dynodedig yng nghanol y dref.

Mae gan y prosiect hwn y potensial i gysylltu llwybrau canol y dref â'r coridorau gwyrdd arfaethedig a gyflwynir yn y weledigaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas, sy'n canolbwyntio ar:

- Yr orsaf drenau i'r glannau, a;
- Rhodfa'r Gogledd i Draeth y De.

Bydd angen i ystyriaethau creu lleoedd yn y dyfodol graffu'n fwy manwl ar y ffordd orau o gael mynediad i ganol y dref, ac ar opsiynau i roi blaenoriaeth i gerddwyr. Byddai'r prosiect hwn, ynghyd â gwelliannau arfaethedig i'r Seilwaith Gwyrdd, gwelliannau i flaen strydoedd, ac uchelgais i gynyddu'r arlwy o ran y gofod dinesig, yn gwneud Aberystwyth yn lle cynaliadwy a deniadol i fyw a gweithio ynddo.

### 5.3.3 Llinell amser

Yn y cyfamser, dylid cynnal cyfnod o brofi ac ymgynghori â'r cyhoedd i sicrhau bod cynllun effeithiol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y parth trefol mewn partneriaeth â busnesau, preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

### 5.3.4 Ymgysylltu

Dylid gwahodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rheiny y tu allan i ganol uniongyrchol y dref a'r cyhoedd, i gymryd rhan mewn gweithdai sy'n mapio ac yn delweddu llwybrau echel canol y dref yn y dyfodol. Byddai'n gyfle i ystyried y modd y gellir cynnal a chefnogi'r arlwy hamdden, yr arlwy o ran mentrau a'r arlwy dinesig ledled amgylchedd canol y dref.

### 5.3.5 Partneriaid

Dylid cynnal trafodaethau cynhwysol ac agored rhwng rhanddeiliaid lleol a'r awdurdod lleol i ddatblygu opsiynau ar gyfer strydlun sy'n cyflawni gweledigaeth uwchgynllun ehangach.

### 5.3.6 Asesiad economaidd a chymdeithasol

Mewn perthynas ag effaith economaidd, mae'r prosiect Llwybrau Canol y Dref wedi cael ei sgorio fel a ganlyn:

| Llwybrau Canol y Dref | Gwerth EE |
|---|---|
| Creu swyddi | 2 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | 3 |
| Cynnydd yn yr amser aros | 3 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol | 2 |
| Cynyddu gwerth y tir | 2 |
| Cyfanswm | 12 |

Bydd adnewyddu'r treflun a gwella'r cyfleusterau manwerthu yn cael effaith economaidd uniongyrchol, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r amser y maent yn aros, a bydd yna hefyd rywfaint o botensial dilynol i gynyddu gwerth eiddo a thir. Mae gan y newidiadau hyn y potensial i gefnogi'r broses o addasu siopau at ddefnydd cymunedol a gweithgareddau hamdden eraill, gan arallgyfeirio economi'r dref ac ysgogi busnesau nad ydynt yn fusnesau manwerthu.

Mae'r gwaith yn debygol o gyflawni'r canlyniadau Gwerth Cymdeithasol canlynol:

- Mwy o bobl mewn cyflogaeth
- Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol ac MMBCh (Mentrau Micro, Bach a Chanolig)
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer y trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil (mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol)
- Allyriadau carbon yn cael eu gostwng
- Llygredd aer yn cael ei ostwng
- Cymuned iachach yn cael ei chreu
- Gwelliant yn llesiant staff


1


2


3

Llwybrau canol y dref

1. Y gylchfan yn Stryd y Ffynnon Haearn, Ffordd Alexandra a Choedlan y Parc
2. Rhodfa'r Gogledd
3. Heol y Wig yn uno â Rhodfa'r Môr


© Rural Office 2023

5.3.7 Cyllid a buddsoddiad


Fel yn achos y prosiect Pyrth a Mynedfeydd, prosiect seilwaith yw hwn, i raddau helaeth, sy'n darparu buddion eilaidd, a bydd yn anodd nodi ystod eang o gyllidwyr.

Mae yna rai elfennau mwy apelgar yn y prosiect a allai ddenu cymorth ar gyfer mynediad i fyd natur. Gallai ffynonellau cyllid posibl ar gyfer yr elfennau hyn gynnwys Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a gallai hefyd, o bosibl, fodloni amcanion prif raglen grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.


Gellid ystyried y prosiect hwn yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol.

5.3.8 Cynaliadwyedd a chydnerthedd

Trwy wella'r berthynas rhwng ardaloedd o weithgarwch masnachol, mae'r prosiect yn cynnig y cyfle i gefnogi'r economi leol trwy amlygu parthau cyrchfannau, cyflwyno clystyrau o ofodau dinesig ac, o ganlyniad, cynyddu amser aros pobl.




Llwybrau canol y dref




Gwelliannau i'r promenâd a theithio llesol fel y'u cynigir gan Gyngor Sir Ceredigion.



Heol y Wig yn arwain o'r Stryd Fawr i'r promenâd.



© Rural Office 2023




Llwybrau canol y dref

Gwelliannau i'r byd trefol. Mae'r weledigaeth yn dangos blaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref.



© Rural Office 2023

Aberystwyth

Y cysylltiad rhwng treflun a morlun.



## 5.4 Prosiect allweddol: Yr hen Swyddfa'r Post

- Busnes
- Cymuned
- Y Stryd Fawr
- Creu Lleoedd
- Sgiliau

### 5.4.1 Gweledigaeth

Creu cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a chyflogaeth trwy sefydlu hyb creadigol a diwylliannol.

### 5.4.2 Disgrifiad

Mae safle'r hen Swyddfa'r Post yn rhoi cyfle i gysylltu set o wasanaethau manwerthu, masnachol a phroffesiynol. Gan adeiladu ar brosiectau diweddar Menter Antur Cymru, yn cynnwys siopau masnachu prawf a rhaglenni sgiliau, byddai'r datblygiad masnachol hwn yn cefnogi'r gymuned a'r economi leol trwy ddarparu'r canlynol:

- Siopau
- Busnesau bach
- Gofod swyddfa
- Mentrau newydd

Mae'r safle mewn man strategol yng nghanol y dref, ac yn un o'r ardaloedd allweddol o ran lle bo ehangu'r arlwy masnachol yn bosibl. Gan ehangu ar y seilwaith gwyrdd presennol ac arfaethedig, a llwybrau teithio llesol ledled y dref, mae potensial arall yn bodoli i ddatblygu cyswllt clir rhwng Stryd y Ffynnon Haearn a'r Stryd Fawr, ynghyd ag i fanteisio ar safle allweddol yr adeilad a'i berthynas â choridorau canol y dref ar hyd y Stryd Fawr a Choedlan y Parc. Byddai hyn yn gwella cysylltiadau yng nghanol y dref ac yn cryfhau'r arlwy yno.

Oherwydd ei fod yn Adeilad Rhestredig Gradd II, dylai'r hen Swyddfa'r Post gael ei hadfer a'i diogelu mewn modd priodol, gan gadw ei threftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, a'i ffasâd stryd pwysig. Byddai buddsoddiad o'r fath yn galluogi'r safle i fod yn fwy hyblyg o ran ei ddefnydd presennol, ac yn cyfrannu at anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

### 5.4.3 Llinell amser

Gan ehangu ar y gwaith profi cyfredol sy'n mynd rhagddo o ran siopau dros dro a rhannu sgiliau, gellir gwella'r fenter gymunedol yn y byrdymor trwy adnewyddu'r adeilad a gwneud cyfres o welliannau iddo. Yn y tymor canolig, byddai gwaith i'r dirwedd a'r strydlun yn galluogi'r safle i ddod yn gyswllt fesul cam rhwng llwybrau canol tref allweddol, gan roi cyfle i adolygu cynllun yr iard wasanaeth a'r fynedfa gefn blaenorol.

### 5.4.4 Ymgysylltu

Dylai grŵp llywio, sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau y mae eu buddiannau, eu hadnoddau a'u sgiliau amrywiol yn cyd-fynd yn amlwg â nodau'r prosiect, gael ei ffurfio i fynd ati i sefydlu'r camau nesaf. Gallai hyn fod yn gyfle i ystyried y modd y gellid cynnal a chefnogi arlwy cymunedol creadigol a diwylliannol trwy ddatblygu'r safle hwn. Byddai o fudd cysylltu'r agenda greadigol a diwylliannol â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, a phartneriaid addysg lleol.

### 5.4.5 Partneriaid

Ochr yn ochr â'r awdurdod lleol, gellid datblygu'r cynnig hwn trwy gyfrwng grŵp llywio a fyddai'n cynnwys rhanddeiliaid lleol.

### 5.4.6 Asesiad economaidd a chymdeithasol

Mewn perthynas ag effaith economaidd, mae prosiect yr hen Swyddfa'r Post wedi cael ei sgorio fel a ganlyn:

| Yr hen Swyddfa'r Post | Gwerth EE |
|---|---|
| Creu swyddi | 3 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | 2 |
| Cynnydd yn yr amser aros | 2 |
| Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol | 2 |
| Cynyddu gwerth y tir | 3 |
| Cyfanswm | 12 |

Mae hwn yn brosiect hynod o fasnachol ac iddo botensial sylweddol i sicrhau swyddi o ganlyniad i greu siopau newydd diddorol. Gall yr amcan i greu màs critigol o fentrau cydnaws gynyddu amser aros yn sylweddol, a hefyd amlhau cyfleoedd newydd i fusnesau a mentrau creadigol a chymunedol cyfredol, elfen a all ddenu ymwelwyr newydd i'r dref.


1



2


3

Safle'r hen Swyddfa'r Post

1. Stryd y Ffynnon Haearn
2. Ffasâd yr hen Swyddfa'r
3. Post Y Stryd Fawr


© Rural Office 2023

Mae'r gwaith yn debygol o gyflawni'r canlyniadau Gwerth Cymdeithasol canlynol:

- Mwy o bobl mewn cyflogaeth
- Mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol ac MMBCh (Mentrau Micro, Bach a Chanolig)
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer y trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil (mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol)
- Mwy o waith gyda'r gymuned


5.4.7 Cyllid a buddsoddiad

O ystyried y defnydd masnachol o'r adeilad adnewyddedig, bydd y gronfa ar gyfer cyllid yn un gul. Fodd bynnag, mae yna bosibilrwydd i'r cronfeydd y gallai'r prosiect hwn apelio atynt fod yn eithaf sylweddol. Os caiff y prosiect ei redeg ar ffurf partneriaeth â sefydliad cymunedol yn achos rhan o'r adeilad neu'r adeilad cyfan, gallai ffynonellau cyllid posibl gynnwys Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru. Pe byddai'r trydydd sector yn rhan allweddol o hyn, mae yna bosibilrwydd hefyd y byddai ymddiriedolaethau a sefydliadau yn darparu cymorth ar gyfer y gweithgarwch refeniw wedi iddo gael ei sefydlu.


Gellid ystyried y prosiect yn elfen o ddyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngheredigion, a hynny'n rhan o flaenoriaethau buddsoddi Cymuned a Lle neu Cymorth Busnes Lleol.

5.4.8 Cynaliadwyedd a chydnerthedd


Trwy ailddatblygu safle'r hen Swyddfa'r Post, mae gan y prosiect y potensial i'w gynnal ei hun yn yr hirdymor ynghyd â chefnogi'r economi a'r gymuned leol.




Perthnasoedd y dref




Y defnydd o adeiladau




Perthnasoedd yr hen Swyddfa'r Post




Golygfa o gyffordd y Stryd Fawr a Heol y Wig



© Rural Office 2023




Datblygu'r hen Swyddfa'r Post

Hyb creadigol neu ddiwylliannol sy'n cysylltu Stryd y Ffynnon Haearn â'r Stryd Fawr. Mae'r weledigaeth yn dangos llawr daear yr hen Swyddfa'r Post, lle mae stondinau marchnad wedi'u lleoli.




© Rural Office 2023


30

6.1 Llinell amser

Rydym yn cydnabod bod cyflawni gwaith sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, cymunedau ac ymgynghorwyr yn llyncu llawer o amser. Mae'r broses hirdymor yn gofyn am arweinyddiaeth a phroses lywodraethu i lywio pethau yn eu blaen, cynnal y momentwm a chydlynu datblygiad y prosiect. Mae ymyraethau targededig a phrosiectau ategol yn gofyn am amserlenni gwahanol.

Y strategaeth adfywio hon yw'r cam cyntaf ar daith lawer hirach, a ddylai barhau i gael ei llywio trwy broses ymgysylltu ystyrlon. Mae'r llinell amser yn darparu cyfleoedd i brofi syniadau ac addasu gofodau dros dro i hwyluso anghenion uniongyrchol, ac mae'n cynnig y potensial ar gyfer gwaith datblygu cynyddrannol neu benagored. Mae'n caniatáu i weledigaeth ddemocrataidd ddod i'r amlwg, gweledigaeth sydd naill ai dan arweiniad y cyngor neu dan arweiniad y gymuned, ac sy'n cael ei llywio trwy fewnbwn llwyddiannus ac uniongyrchol gan y defnyddwyr.





© Rural Office 2023

## 6.2 Argymhellion

### 6.2.1 Argymhellion allweddol

#### Blaenoriaethu a chyflwyno gam wrth gam

Mae'r strategaeth yn cynrychioli gweledigaeth hirdymor sy'n gyfanswm ei rhannau cynyddrannol. Bellach, mae'n ofynnol cyflwyno'r ymyriadau targededig a'r prosiectau awgrymedig yn ôl i randdeiliaid cymunedol fel y gellir mynd trwy'r broses o flaenoriaethu, dethol a chytuno ar set graidd o ymrwymiadau hirdymor. Rydym yn awgrymu bod y strategaeth adfywio hon yn cael ei defnyddio fel pecyn cymorth i ddatgloi'r potensial mewn syniadau penodol sy'n gyson â'r achos amlinellol strategol, y cyllid posibl sydd ar gael, yn ogystal â'r diddordeb a'r ymrwymiad i symud ymyriadau targededig yn eu blaen.

#### Dadansoddiad rhanbarthol

O wybod am natur gydgysylltiedig chwe phrif dref Ceredigion: Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron, argymhellir bod themâu cyffredin yn cael eu mapio ar draws bob un er mwyn datblygu strategaeth ar gyfer y rhanbarth. Ynghyd â threfi ac aneddiadau ar y ffin cyfagos, ni ddylai strategaethau adfywio ar gyfer prif drefi gael eu hystyried ar wahân; mae'n ofynnol eu cysylltu â'i gilydd i fod yn rhan o broses gynllunio ac ymarfer creu gweledigaeth ehangach. Mae gan hyn y potensial i fod yn gyson â mecanweithiau eraill ar gyfer twf rhyngranbarthol, megis Tyfu Canolbarth Cymru a mentrau eraill, sef mecanweithiau sy'n mynd i'r afael â gwendidau strwythurol sy'n llesteirio'r potensial ar gyfer preswylwyr a busnesau lleol.

#### Y Stryd Fawr

Mae canol trefi a'u stryd fawr wrth galon y gymuned, a heb i gymunedau berchnogi cynlluniau adfywio ar gyfer y stryd fawr, ni fyddant yn debygol o lwyddo. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i flaenoriaethu ac arwain yn achos cynlluniau ar gyfer y stryd fawr gan y gallant sicrhau bod cymunedau a busnesau yn cael eu cynnwys yn llawn. Rydym yn argymell datblygu cynllun targededig ar gyfer y Stryd Fawr sy'n caniatáu i'r gymuned asesu ei stryd fawr gyfredol mewn modd gonest ac agored, trafod yr heriau cyfredol, a, lle bo hynny'n briodol, galluogi i waith ailddatblygu gael ei wneud ar gyfer defnyddiau amgen i helpu i greu lleoedd cynaliadwy.

#### Ymgysylltu ystyrlon

Mae llunio strategaeth ynddi ei hun yn llyncu amser a, thrwy'r darn byr hwn o waith, mae set o gynigion gwybodus wedi cael eu trafod a'u datblygu, a hynny gyda mewnbwn targededig gan amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn argymell ymrwymo i strategaeth ymgysylltu hirdymor, a fyddai'n cael ei hystyried yn rhywbeth sy'n goroesi'r comisiwn cychwynnol hwn. Cyfeirier at y Fframwaith Ymgysylltu awgrymedig er mwyn bwrw ymlaen â phob un o'r ymyraethau targededig hyn.



Parc Kronberg

Parc sglefrio ar Boulevard St. Brieuc.


© Rural Office 2023

## 6.2.2 Argymhellion ategol

### Dichonoldeb y cynllun

Dylai'r gwaith o fwrw ymlaen â datblygiad y strategaeth adfywio hon yn y dyfodol gael ei wneud yn unol â Chynllun Gwaith RIBA, gyda cherrig milltir clir yn cael eu sefydlu trwy gydol cam dichonoldeb pob prosiect unigol. Dylai'r broses ddichonoldeb helpu i asesu hyfywedd a haenu gofynion manwl ym mriff y prosiect cyn i'r broses gynllunio ddechrau.

### Pobl ifanc

Mae tueddiadau ac ystadegau demograffig yn amlygu pwysigrwydd rhoi llais a chyfle i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Rydym yn argymell mabwysiadu ffurfiau ar ymgysylltu sy'n galluogi pobl ifanc i fod yn hyderus ynghylch dylanwadu ar eu hamgylchedd lleol, a'i lunio, a hynny gan ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth am yr ardal y maent yn byw ynddi i lywio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth adfywio hon trwy gydol y camau dilynol.

### Gweithio mewn partneriaeth

Cydnabyddir bod cyfalaf cymdeithasol yn ofynnol i weithredu rhai o'r syniadau trawsffurfiol a gyflwynir yn y strategaeth hon. Lle bo modd, dylai prosiectau dynnu ar set o werthoedd ac adnoddau a rennir sydd ar gael i gymunedau, rhanddeiliaid allweddol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, ac a fyddai'n caniatáu iddynt gronni adnoddau a chydweithio mewn modd effeithlon ac effeithiol tuag at ddiben cyffredin. Mae yna gyfle i adeiladu ar berthnasoedd cyfredol â sefydliadau allweddol (prifysgolion, colegau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, canolfannau celfyddydau, ac ati) ac i sefydlu busnes sector preifat ledled y sir i gryfhau'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn.

### Gwerth

Mae'n bosibl na fydd yr hyn y mae'r cyngor sir yn gosod gwerth arno yr un fath yn achos cymuned leol neu grŵp o breswylwyr lleol. Bydd adolygu gwerth cymdeithasol a gwerth economaidd pob prosiect wrth iddo ddatblygu yn gymorth i arfarnu pwysigrwydd ac arwyddocâd ymyraethau penodol i randdeiliaid gwahanol. Nid yw ymyraethau targededig wedi'u datblygu ddigon eto i ddefnyddio fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymru i'w lawn botensial. Rydym yn argymell, yn ddiweddarach yn y cam dichonoldeb, fod y gwerth procsi yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r gwerth ariannol ychwanegol a grëwyd.

### Trafnidiaeth

Mae cysylltedd yn hanfodol i dwf economaidd a thwf yn y dyfodol, ac mae llawer o'r ymyraethau a amlinellir yn dibynnu ar fuddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau priffyrdd, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae gan Geredigion hefyd nifer o goridorau trafnidiaeth strategol allweddol y mae pobl a chadwyni cyflenwi ledled Cymru yn dibynnu arnynt. Rydym yn argymell bod y strategaeth adfywio hon yn cael ei hymgorffori yng nghynllun system drafnidiaeth sirol hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon tymor hwy a fydd yn cyd-fynd â Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021.

### Ynni

Mae asedau amgylcheddol y rhanbarth ac arbenigedd mewn technolegau carbon isel yn gryfderau allweddol, ac mae Canolbarth Cymru mewn lle da i gynhyrchu ffurfiau gwyrdd ac adnewyddadwy ar ynni. I ddatblygu'r cyfleoedd busnes cywir, mae'n ofynnol cydnabod buddsoddiadau yn y seilwaith dŵr, ynni a gwastraff a chynllunio'n ofalus ar eu cyfer. Dylid sefydlu canlyniadau cynaliadwyedd clir, cyflawnadwy ac uchelgeisiol, a'u cynnwys yn rhan o bob prosiect yn y strategaeth hon a roddir ar waith. Wrth i gynlluniau gael eu datblygu, dylid defnyddio defnydd ynni a modelau eraill i brofi a mireinio'r cysyniad, y strategaeth gynaliadwyedd a'r broses o gyflawni'r canlyniadau cynaliadwyedd.

### Yr Amgylchedd

Mae tirwedd unigryw'r sir a'i chyfoeth o asedau naturiol eithriadol yn greiddiol i'r strategaeth adfywio hon. Cydnabyddir bod y sir yn gweld mwy o lifogydd a digwyddiadau tywydd pwerus; felly, lle bynnag y bo modd, dylai ymyraethau gefnogi gwelliannau amgylcheddol ehangach a chynlluniau CNC i ddiogelu eiddo sydd mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol.

### Ffosffadau

Mae Afon Teifi yn llifo trwy ardaloedd helaeth o Geredigion. Mae dalgylch yr afon yn gorchuddio 44.6% o dirwedd Ceredigion ac yn cynnwys Tregaron, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul. Bydd canllawiau newydd ar effeithiau niweidiol ffosffadau ar ecosystemau a rhywogaethau dŵr yn cael effaith sylweddol ar y cymunedau lleol hyn a'r modd y bydd yr ymyraethau targededig a amlinellir yn datblygu. Argymhellir bod y strategaeth adfywio hon yn cael ei hadolygu a'i datblygu yn dilyn cyhoeddi'r CDLI nesaf (y cyfnod 2018-33), sydd wedi cael ei oedi ar hyn o bryd.

### Sgiliau

Mae'r strategaeth adfywio hon yn darparu cyfleoedd i gefnogi menter, busnes a dysgu ar lefel leol a rhanbarthol. Yr uchelgais yw creu lleoedd ac iddynt gyfleoedd cyflogaeth uchel eu gwerth sy'n cefnogi mentrau lleol lle bynnag y bo modd. Wrth i bobl aros mewn gwaith am gyfnod hwy, bydd amrywiaeth o gyfleoedd yn ofynnol i sicrhau bod unigolion yn parhau i fod yn gyflogadwy, yn dra chymwys ac yn fedrus. Rydym yn argymell bod y strategaethau adfywio ar gyfer chwe phrif dref Ceredigion: Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron, i gyd yn cael eu hadolygu ar y cyd â phartneriaid addysg a busnes strategol i ymgorffori a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sgiliau yn eu darpariaeth yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

### Perchnogaeth

Heb i bobl berchnogi cynlluniau adfywio, nid fyddant yn llwyddo, nac yn cael eu hintegreiddio i'r gymuned. Yr awdurdod lleol sydd yn y lle gorau i gefnogi'r ddarpariaeth, lle bo modd, pa un a yw'r ddarpariaeth honno, yn dibynnu ar y blaenoriaethau, dan arweiniad y cyngor neu'r gymuned. Bydd cydlynu cyfres o ymyraethau targededig gam wrth gam, fel yr amlinellir yn y strategaeth hon, yn gofyn am geidwad neu swyddog datblygu lleol dynodedig i hyrwyddo a rheoli'r prosiect ym mhob achos. Dylai'r rôl fod yn un dref-benodol gan y bydd yn dibynnu ar wybodaeth leol, ymgysylltiad parhaus â'r gymuned, ac ymrwymiad hirdymor i fynd i'r afael â materion penodol trwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

> Mabwysiadu ffurfiau ar ymgysylltu sy'n galluogi pobl ifanc i fod yn hyderus ynghylch dylanwadu ar eu hamgylchedd lleol.

> Dylai prosiectau dynnu ar set o werthoedd ac adnoddau a rennir er mwyn caniatáu i randdeiliaid gydweithio mewn modd effeithlon yn unol â diben cyffredin.


© Rural Office 2023

## 6.3 Fframwaith Ymgysylltu

Yn dilyn nodi prosiectau allweddol, argymhellir y ‘camau nesaf’ canlynol. Bydd dychwelyd eto at y cylch ymgysylltu sy’n seiliedig ar asedau ac a sefydlwyd ar egwyddorion ymchwiliad gwerthfawrogol, yn helpu i nodi rhanddeiliaid allweddol a sefydlu grŵp llywio rhanddeiliaid. Mae’r camau nesaf hyn yn cynnwys: rhagweld dyfodol ar gyfer pob prosiect allweddol ar y cyd â grŵp llywio’r rhanddeiliaid a’r gymuned; cynllunio camau byrdymor a hirdymor gwirioneddol, a; gweithredu ar unwaith er mwyn dechrau ar ddatblygiad tymor hwy.

### Cam 1: Darganfod

Nodi rhanddeiliaid allweddol y gwyddys eisoes fod ganddynt ddiddordeb ym mhob prosiect allweddol, a bwrw’r rhwyd yn ehangach trwy wahodd rhanddeiliaid eraill y gall eu hadnoddau, eu sgiliau a’u diddordebau gefnogi’r prosiectau. Cysylltu’n uniongyrchol â rhanddeiliaid a hysbysebu’n gyhoeddus, a hynny gyda’r nod o ddechrau grŵp(iau) llywio sy’n cynnwys unigolion a sefydliadau y gall eu diddordebau, eu hadnoddau a’u sgiliau amrywiol gefnogi’r camau nesaf.

### Cam 2: Breuddwydio

Cynnal gweithdy ar gyfer y grŵp llywio i rannu diddordebau, sgiliau ac adnoddau amrywiol y rhanddeiliaid ac i ddychmygu amrywiol bosibiliadau ar gyfer dyfodol pob prosiect allweddol, gan gynnwys camau gweithredu ‘hawdd’ ac ‘ar unwaith’ (blwyddyn), ac uchelgeisiau ‘anoddach’ a’ hirdymor’ (10 a 100 mlynedd).

### Cam 3: Cynllunio

Cefnogi’r grŵp llywio i gynllunio ar gyfer digwyddiad(au) cyhoeddus yn 2023 er mwyn ysgogi’r safle ar unwaith, a hynny gyda’r nod o amlygu potensial y safle, cyflwyno syniadau cychwynnol i gynulleidfa gyhoeddus ehangach, a gwahodd rhagor o syniadau a chyfranogiad yn y camau nesaf.

### Cam 4: Cyflawni

Cyflawni’r gwaith o ysgogi’r safle(oedd) er mwyn ymgysylltu â’r cyhoedd a chael adborth, gan ddefnyddio’r digwyddiad i gasglu tystiolaeth o ddiddordeb, angen, a hyfywedd ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol. Yn dilyn y digwyddiad, dechrau llunio cyfansoddiad ffurfiol ar gyfer grŵp rhanddeiliaid sy’n ymrwymedig i ddatblygu’r prosiect(au) yn y tymor hwy. Gallai hyn gynnwys ymyraethau lled-barhaol byrdymor (1-3 blynedd) a fydd yn parhau i brofi a chynnull tystiolaeth ar gyfer cynigion datblygu graddfa fwy a thymor hwy.



Gweithdy ymgysylltu

Gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, Tachwedd 2022.


© Rural Office 2023



Strategaeth Adfywio Aberystwyth, 2023

Y Tîm Ymgynghorol

Arweinydd Tîm y Penseiri a Dylunio: Rural Office
Cyllid a Buddsoddiad: The Funding Centre
Ymgynghoriaeth Costau: Currie & Brown

Mae'r tîm ymgynghorol wedi cael cymorth gan staff ledled Cyngor Sir Ceredigion, yn ogystal â chan amrywiaeth o arbenigwyr allanol ac adolygwyr cymheiriaid, sydd oll wedi ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu a darparu'r cynllun hwn.

Paratowyd y ddogfen strategaeth adfywio gan:

Rural Office
Yr Egin
Ffordd y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

www.rural-office.co.uk

© Rural Office 2023

Mynnir hawl Rural Office for Architecture Ltd i gael ei nodi yn awdur y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Credydau'r Ffotograffau (Cedwir Pob Hawl):

Mohamed Hassan
mohamedhassanphotography.com

Janet Baxter
janetbaxterphotography.co.uk

Delwedd y clawr: Aberystwyth, Mohammed Hassan


© Rural Office 2023